Independent Monitoring Boards

# Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol 2023

Carchardai oedolion, sefydliadau troseddwyr ifanc a lleoliadau cadw mewnfudwyr

Mai 2024



national preventive mechanism

# Cynnwys

Cyflwyniad gan Gadeirydd Cenedlaethol IMB 3

Ynghylch Byrddau Monitro Annibynnol a'r adroddiad hwn 7

Gweithgaredd y Byrddau Monitro Annibynnol yn 2023 8

**Canfyddiadau'r Byrddau Monitro Annibynnol 9**

1. Carchardai oedolion 9

2. Sefydliadau troseddwyr ifanc 22

3. Lleoliadau cadw mewnfudwyr 27

**Atodiadau**

1. Ceisiadau 38

2. Aelodaeth 40

# Cyflwyniad gan y Cadeirydd Cenedlaethol

Ym mhob carchar, sefydliad troseddwyr ifanc, canolfan symud mewnfudwyr (IRC) a chyfleuster dal tymor byr (STHF), mae Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB), sydd wedi'i benodi gan weinidogion er mwyn monitro ac adrodd am yr amodau a'r driniaeth a dderbynnir gan yr unigolion a gedwir yno. Yn ystod 2023, cynhaliwyd dros 37,700 o ymweliadau gan 132 o Fyrddau Monitro Annibynnol yn y mannau cadw hyn.

Am y tro cyntaf erioed, mae'r adroddiad blynyddol cenedlaethol hwn yn dwyn ynghyd brif ganfyddiadau a themâu'r Byrddau Monitro Annibynnol drwy gydol y flwyddyn yn yr holl leoliadau. Er bod plant ac oedolion yn cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc neu leoliadau cadw mewnfudwyr am resymau hollol wahanol (mae'r ddau gyntaf yn dal y rhai sydd wedi cael eu dedfrydu neu sy'n aros i gael eu dedfrydu gan y llysoedd; mae'r olaf yn rhan weinyddol o reoli mewnfudwyr), mae'r Byrddau wedi gweld materion trawsbynciol sy'n effeithio ar bob unigolyn sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid. Er bod y Byrddau wedi gweld rhai arferion da, ar lefel leol yn aml, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ein pryderon cenedlaethol.

### Y cyd-destun

Drwy gydol 2023, roedd carchardai a mewnfudo yn bynciau amlwg iawn ym myd gwleidyddiaeth, ac yn achosi llawer o bwysau ac ansicrwydd. Gwelwyd diffyg dilyniant parhaus ar y lefel wleidyddol uchaf; penodwyd Ysgrifennydd Cyfiawnder, Ysgrifennydd Cartref a Gweinidog Carchardai newydd, a rhannwyd materion mewnfudo yn dilyn cyflwyno Gweinidog Mewnfudo Anghyfreithlon newydd.

Roedd y Gwasanaeth Carchardai, nad oedd wedi adfer yn llwyr o effeithiau pandemig Covid-19, yn wynebu argyfwng newydd, sef cynnydd ym mhoblogaeth carchardai (dros 5,200 yn rhagor o bobl yn ystod 2023 yn unig) a phrinder lle.[1] Roedd llawer o'r effeithiau andwyol a achoswyd gan broblemau capasiti a gorboblogi i'w gweld hefyd yng nghyswllt rheolwaith diogel a dyngarol, sy'n canolbwyntio ar adsefydlu. Roedd achos honedig o ddianc o Garchar EF Wandsworth ym mis Medi 2023 yn amlygu risg ddifrifol i ddiogelwch ac yn codi cwestiynau ymhlith y cyhoedd ynglŷn â chyflwr ein carchardai.

Yn yr un modd, roedd nifer y bobl mewn lleoliadau cadw mewnfudwyr dros 50% yn uwch erbyn diwedd 2023 nag yr oedd yn 2022. Daeth Deddf Mewnfudo Anghyfreithlon 2023 i rym hefyd, ac os bydd pobl yn dal i gyrraedd y DU ar yr un raddfa, mae nifer y bobl sy'n cael eu cadw dan glo yn debygol o ddyblu.[2] Yn 2023, dyfarnodd Llys Apêl y DU a'r Goruchaf Lys fod cynllun y llywodraeth i symud pobl i Rwanda yn anghyfreithlon oherwydd ei fod yn torri hawliau dynol. Fodd bynnag, llwyddodd y llywodraeth i basio deddfwriaeth ym mis Ebrill 2024 a fydd yn mynd o gwmpas hyn, ac mae'n bwriadu dechrau anfon ceiswyr lloches i Rwanda yn haf 2024. Yn ogystal, cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad statudol i gam-drin pobl sy'n cael eu cadw dan glo yn IRC Brook House yn 2017.[3]

## Y canfyddiadau

Mae problemau poblogaeth carchardai ac ymdrechion i gynyddu capasiti wedi rhoi straen aruthrol ar bob lleoliad cadw dan glo sy'n cael ei fonitro gan y Byrddau Monitro Annibynnol. Mewn carchardai oedolion, roedd pobl yn cael eu symud o amgylch yr ystad lle bynnag yr oedd lle, er nad oedd hynny bob amser yn gyson â'r gefnogaeth yr oedd arnynt ei hangen ar yr adeg honno yn eu dedfryd, neu'r ardal leol y byddent yn cael eu rhyddhau iddi. Roedd rhai carcharorion a oedd yn fwy treisgar, yn tarfu ar eraill, neu'n ymwneud â throseddu parhaus, yn cael eu cadw mewn carchardai categori is, neu'n cael eu symud i rannau o'r ystad a oedd fel arfer yn fwy sefydlog, gan darfu ar y sefydlogrwydd yno, a gorfod cael eu symud yn ôl yn aml iawn o ganlyniad i hynny. Roedd unigolion dros 18 oed yn cael eu cadw mewn sefydliadau troseddwyr ifanc er mwyn rhyddhau lleoedd mewn carchardai oedolion, ond roedd hyn yn achosi diffyg sefydlogrwydd yn yr ystad ieuenctid. Nid oedd gweithgaredd addas yn cael ei ddarparu ar gyfer yr oedolion ifanc hyn yr oedd eu bywydau'n ddiflas, ac o ganlyniad yn ddigyfeiriad. Roedd mwy o droseddwyr sy'n wladolion tramor wedi treulio amser yn cael eu cadw mewn lleoliadau cadw mewnfudwyr, gan achosi yr un math o darfu.

Er gwaethaf rhywfaint o welliannau yn 2023, roedd llawer o oedolion a phlant ar draws yr ystad carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc yn dal i gael eu cadw dan glo am ormod o amser heb ddim byd ystyrlon i'w wneud. Roedd gweithgaredd â phwrpas iddo yn parhau'n brin iawn ar y cyfan, ac roedd mynediad at addysg, hyfforddiant, gwaith a chyfleoedd i wneud cynnydd yn anghyson. Roedd llawer o Fyrddau Monitro Annibynnol yn gweld y niwed a achosid i unigolion a oedd yn cael eu cloi mewn cell am gyfnodau hir, heb reolwaith dibynadwy neu lawn, o ran iechyd meddwl a llesiant, a hyder i wneud cynnydd ac ailsefydlu yn y gymdeithas yn y pen draw a chefnu ar droseddu.

Roedd prinder staff cyffredinol yn amharu ar bob agwedd ar fywydau pobl sy'n cael eu cadw dan glo, ac roedd diffyg rheolwaith yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Er bod lefelau staffio gweithredol wedi gwella yn genedlaethol yn ystod 2023, ar lefel leol, ac yn ymarferol, roedd carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc yn dal yn brin o staff, gan fod swyddogion newydd yn treulio cyfnodau sylweddol yn cael eu hyfforddi heb fod ar ddyletswyddau rheng flaen, ac roedd llawer iawn yn cael eu hadleoli i safleoedd eraill ar ddyletswydd neilltuol. Roedd llawer o oedolion a phlant heb berthnasoedd ystyrlon â staff, a phrin bod sôn am gynllun gwaith allweddol, lle mae swyddogion yn darparu cefnogaeth un-i-un i garcharorion sy'n oedolion. Roedd prinder staff prawf yn rhoi carcharorion a oedd yn cael eu rhyddhau dan anfantais, ac roedd y niferoedd uchel a oedd yn cael eu rhyddhau yn ddigartref yn gwbl annerbyniol. Yn yr ystad mewnfudo, roedd prinder staff Llu'r Ffiniau yn golygu bod pobl sy'n cael eu cadw dan glo yn cael eu dal mewn lleoedd amhriodol am ormod o amser, er enghraifft celloedd yng ngorsafoedd yr heddlu a mannau aros a reolir mewn meysydd awyr.

Roedd swyddi gweigion ym maes gofal iechyd ac addysg hefyd yn effeithio ar ganlyniadau carcharorion. Roedd diffyg staff gofal iechyd, yn enwedig staff iechyd meddwl, yn golygu bod gwasanaethau'n cael anhawster i fodloni lefelau uchel o angen. Roedd prinder athrawon mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn golygu bod plant yn aml yn derbyn lefelau annigonol o addysg.

Roedd cyflwr gwael yr adeiladau ar draws yr ystad carchardai, ac mewn rhai sefydliadau troseddwyr ifanc a chyfleusterau dal tymor byr, yn golygu bod rhai pobl sy'n cael eu cadw dan glo yn byw neu'n cael eu cadw mewn amgylchedd annerbyniol. Roedd carcharorion sy'n oedolion yn cael eu cadw mewn amodau a ddisgrifid fel annynol, weithiau heb fynediad at gyfleusterau glanweithdra sylfaenol, ac roedd hynny'n arwain at oblygiadau difrifol o ran hylendid ac urddas. Roedd rhai plant yn byw mewn amgylchiadau gwael oherwydd oedi cyn gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

Roedd gan Fyrddau Monitro Annibynnol bryderon cyffredinol ynglŷn â diogelwch pobl sy'n cael eu cadw dan glo mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc a lleoliadau cadw mewnfudwyr. Roedd nifer fawr o bobl sy'n cael eu cadw dan glo yn wynebu risg o hunanladdiad a hunan-niweidio mewn carchardai a lleoliadau cadw mewnfudwyr, ac roedd angen gwelliannau i'w diogelu. Roedd cynnydd mewn digwyddiadau difrifol, trais ac anhrefn yn yr ystad ieuenctid, nad oedd bob amser yn cael ei rheoli'n dda; roedd y defnydd o wahanu (cadw unigolyn ar wahân i bobl eraill) hefyd ar gynnydd.

Roedd y Byrddau hefyd yn pryderu ynglŷn â nifer o grwpiau sy'n cael eu cadw dan glo, gan gynnwys plant, a oedd yn agored iawn i niwed ac yn profi diffygion amlwg yn eu gofal a'u cefnogaeth.

Roedd gan fenywod a merched mewn carchardai anghenion iechyd meddwl cymhleth a lefelau uchel o hunan-niweidio. Mae'r Byrddau'n parhau'n bryderus ynglŷn â menywod yn cael eu hanfon i'r carchar oherwydd problemau iechyd meddwl yn unig neu oherwydd risg o hunanladdiad, ac ynglŷn ag addasrwydd lleoli merched mewn amgylchedd carchar – dylid rhoi terfyn ar y naill a'r llall. Roedd oedi hir o hyd wrth drosglwyddo o garchar i ysbyty diogel ar draws yr ystad carchardai.

Mewn lleoliadau cadw mewnfudwyr, roedd prosesau i nodi a diogelu pobl yr ystyrid eu bod yn agored i niwed (gan gynnwys rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl difrifol neu sydd wedi cael eu masnachu neu eu harteithio) yn aneffeithiol, ynghyd â mecanweithiau i'w hatal rhag cael eu cadw yn y lle cyntaf. Yn rhy aml o'r hanner yn ystod 2023, roedd y rhai y gwyddid eu bod yn wynebu risg o niwed yn ôl polisi'r Swyddfa Gartref yn dal i gael eu cadw'n gaeth neu'n cael eu cadw'n gaeth yn rhy hir.

Roedd llawer o'r Byrddau a oedd yn monitro mewn carchardai oedolion yn bryderus ynglŷn â'r gefnogaeth ar gyfer unigolion a oedd yn treulio dedfryd o garchar er mwyn diogelu'r cyhoedd (IPP), a'r cynnydd sydyn dros dro mewn marwolaethau a oedd yn ôl pob golwg wedi'u hachosi gan yr unigolyn ei hun, ar ôl i'r llywodraeth wrthod yr argymhelliad ar gyfer ymarfer ailddedfrydu yn gynnar yn 2023. Mae carcharorion IPP yn dal i wynebu iechyd meddwl gwael, teimladau cynyddol o anobaith a rhwystredigaeth, a llawer o rwystrau sy'n eu hatal rhag symud ymlaen.

Er mai dyma fy adroddiad cyntaf fel Cadeirydd Cenedlaethol, mae llawer o'r pryderon hyn yn debyg iawn i'r rhai a fynegwyd gan fy rhagflaenydd. Bu'r Fonesig Anne Owers yn gwneud y gwaith am dros bum mlynedd a hanner, gan gyflawni ei rôl â diwydrwydd a phenderfyniad, yn union fel aelodau'r Byrddau Monitro Annibynnol lleol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae pryderon y Byrddau yn aml iawn wedi cael eu hanwybyddu, ac mae'r Byrddau wedi gorfod gofyn yr un cwestiynau i

weinidogion dro ar ôl tro. Er mai cyfrifoldeb y llywodraeth yw hyn i raddau helaeth, a'i fod yn fater y mae pob corff craffu'n ei wynebu, rhaid i'r Byrddau hefyd ofyn: Sut allwn ni gael mwy o effaith? Yn 2023, rydym wedi dechrau gweithio er mwyn ceisio cael mwy fyth allan o wybodaeth a dealltwriaeth amser real y Byrddau Monitro Annibynnol. Rydym wedi gwella cynnwys yr adroddiadau blynyddol a gyhoeddir gennym, cyflwyno proses adroddiadau chwarterol fewnol er mwyn gwrando ar brif bryderon y Byrddau yn fwy aml a dylanwadu'n well ar newid, a chyhoeddi adroddiadau monitro thematig cenedlaethol, sy'n dod â chanfyddiadau Byrddau lleol at ei gilydd i greu darlun cenedlaethol.

Un ffordd y gall Byrddau Monitro Annibynnol fod yn fwy effeithiol o ran effaith, ymddiriedaeth a hyder yw drwy gael aelodaeth wirioneddol amrywiol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data ethnigrwydd yr aelodau am y tro cyntaf, sy'n dangos bod 92% o'r rhai a ddarparodd y wybodaeth hon (roedd dros 30% heb ddarparu gwybodaeth) yn wyn (gweler Atodiad 2).[4] Nid yw hyn yn ddigon da. Er ein bod eisoes wedi dechrau cymryd camau i wella amrywiaeth y Byrddau – ac rydym yn canolbwyntio i ddechrau ar wella amrywiaeth ethnig – mae hwn yn waith hirdymor yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr iddo. Rwyf wedi ei wneud yn amcan strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf, ond rhaid i'n hymrwymiad cyfunol a chyffredin i hyn fod yn bwysicach nag unrhyw amserlen.

**Elisabeth Davies** **Mai 2024**
Cadeirydd Cenedlaethol IMB

# Ynghylch Byrddau Monitro Annibynnol a’r adroddiad hwn

Mae Byrddau Monitro Annibynnol (IMB) yn monitro ac yn adrodd am amodau a thriniaeth pobl sy’n cael eu cadw dan glo ym mhob carchar a sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â phob cyfleuster cadw mewnfudwyr ledled y DU a symud dramor. Gwirfoddolwyr yw aelodau’r IMB ac nid ydynt yn derbyn tâl.

Mae Byrddau Monitro Annibynnol yn rhan o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) y DU.

**Ein cylch gwaith**

Mae ein cylch gwaith wedi’i amlinellu’n bennaf yn Neddf Carchardai 1952 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999. Diffinnir ein swyddogaethau a’n pwerau hefyd yn y Rheolau Carchardai, Rheolau Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Rheolau Canolfannau Cadw a Rheolau Cyfleusterau Dal Tymor Byr.

**Ein dull monitro**

Mae ein dull gweithredu wedi’i amlinellu yn y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gan weinidogion.[5]

Mae monitro yn canolbwyntio ar y canlyniadau i garcharorion a phobl sy’n cael eu cadw dan glo. Mae Byrddau Monitro Annibynnol yn asesu canlyniadau yn y meysydd a ganlyn:

- Diogelwch
- Triniaeth deg a dyngarol
- Iechyd a lles
- Addysg a hyfforddiant (IMB mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn unig)
- Cynnydd a rhyddhau (gan gynnwys paratoi ar gyfer dychwelyd neu ryddhau mewn cyfleusterau cadw mewnfudwyr)

**Yr adroddiad hwn**

Mae’r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau IMB o 1 Ionawr hyd 31 Rhagfyr 2023.[6]

# Gweithgaredd y Byrddau Monitro Annibynnol yn 2023

Cynhaliodd **132** o Fyrddau, yn cynnwys **1,176** o aelodau, **37,715** o ymweliadau rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2023.[7]

## Adroddiadau

Yn 2023, cyhoeddasom **128** o adroddiadau blynyddol:

| Carchardai oedolion | Sefydliadau troseddwyr ifanc | Cadw mewnfudwyr |
|---|---|---|
| • 101 o adroddiadau ar garchardai dynion<br>• 11 adroddiad ar garchardai menywod | • 4 adroddiad sefydliad troseddwyr ifanc | • 5 adroddiad IRC<br>• 6 adroddiad STHF<br>• 1 adroddiad hediad siarter |

Cyhoeddasom **dri** adroddiad monitro thematig cenedlaethol ac **un** adroddiad blynyddol cenedlaethol:

- Effaith dedfrydau IPP ar les carcharorion
- Pryderon iechyd meddwl mewn carchardai menywod
- Diogelwch a rheolwaith yn yr ystad ieuenctid[8]
- Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol yr Ystad Cadw Mewnfudwyr 2022

## Ymgyngoriadau

Drwy gydol y flwyddyn, ymatebasom i amryw o ymgyngoriadau yn cael eu cynnal gan gyrff hawliau dynol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, a'r Swyddfa Gartref. Roedd hyn yn cynnwys: cadw ar wahân, triniaeth cyffuriau, diogelwch plant a phobl ifanc, menywod mewn carchardai a'r ystad cadw mewnfudwyr, lles a darpariaeth teulu yng nghyswllt cadw mewnfudwyr, a thechnoleg yng nghyswllt pobl sy'n cael eu cadw dan glo.

## Y Senedd

Rhoddodd y Byrddau Monitro Annibynnol dystiolaeth i bwyllgorau dethol seneddol hefyd:

**Tystiolaeth ysgrifenedig**

- Y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol, Ymchwiliad hawliau dynol ceiswyr lloches yn y DU (Ionawr 2023)
- Y Pwyllgor Materion Cartref, Ymchwiliad masnachu pobl (Mehefin 2023)
- Y Pwyllgor Materion Cymreig, Ymchwiliad carchardai yng Nghymru (Hydref 2023)
- Y Pwyllgor Cyfiawnder, Ymchwiliad poblogaeth carchardai'r dyfodol a chapasiti'r ystad (Hydref 2023)

**Tystiolaeth lafar**

- Grŵp Hollbleidiol Seneddol (APPG) ar Faterion Cosbi, Rôl Byrddau Monitro Annibynnol (Chwefror 2023)
- Y Pwyllgor Cyfiawnder, Ymchwiliad gweithlu gweithredol carchardai (Mawrth 2023)
- Y Pwyllgor Cyfiawnder, Ymchwiliad poblogaeth carchardai'r dyfodol a chapasiti'r ystad (Tachwedd 2023)

# Canfyddiadau'r Byrddau Monitro Annibynnol

## 1. Carchardai oedolion

**Y prif ganfyddiadau**

- Roedd pwysau poblogaeth a gorboblogi yn achosi straen aruthrol ar bob agwedd ar fywyd carchar, ac roedd prinder staff cyffredinol yn gwneud y sefyllfa'n waeth.
- Roedd gan y Byrddau bryderon cyffredinol a difrifol ynglŷn â diogelwch. Adroddwyd bod angen gwelliannau er mwyn diogelu carcharorion yr oedd risg iddynt ddiweddu eu hunain neu niweidio eu hunain, lleihau a rheoli trais ac anhrefn, ac atal eitemau anghyfreithlon rhag dod i mewn i garchardai.
- Roedd amodau ffisegol gwael yn golygu bod rhai carcharorion yn byw mewn amodau annerbyniol, weithiau heb fynediad at gyfleusterau glanweithdra sylfaenol, a oedd yn cael goblygiadau difrifol o ran hylendid ac urddas. Roedd rhai Byrddau'n disgrifio'r amodau byw fel annynol.
- Roedd gwasanaethau iechyd meddwl yn cael anhawster i fodloni lefel uchel yr angen iechyd meddwl, yn enwedig mewn carchardai sy'n cadw menywod. Roedd y Byrddau'n parhau i fod yn bryderus ynglŷn ag oedi hir wrth drosglwyddo o garchar i ysbyty diogel.
- Roedd amser allan o'r gell a gweithgaredd ystyrlon yn parhau'n brin iawn er gwaethaf gwelliannau bach mewn rhai carchardai yn ystod y flwyddyn. Roedd prinder staff yn golygu bod rheolwaith yn cael ei ganslo'n annisgwyl neu'n cael ei gwtogi.
- Nid oedd carcharorion bob amser yn gallu cael mynediad at gyfleoedd i wneud cynnydd, megis rhaglenni ymddygiad a throsglwyddiadau. Roedd carcharorion IPP yn wynebu rhwystrau sylweddol a oedd yn atal cynnydd.
- Roedd gwaith ailsefydlu yn annigonol, yn bennaf oherwydd prinder staff prawf, ac yn rhoi carcharorion dan anfantais pan oeddent yn cael eu rhyddhau. Roedd diffyg llety yn achos pryder penodol, gan fod gormod o garcharorion yn cael eu rhyddhau'n ddigartref.

### Newidiadau yn y boblogaeth

O ganlyniad i'r pwysau yn gysylltiedig â'r boblogaeth ym mhob rhan o'r ystad, roedd Byrddau mewn carchardai oedolion yn sylwi ar newidiadau yn y carcharorion roeddent yn eu derbyn. Roedd Byrddau carchardai lleol yn nodi bod mwy o garcharorion o'r tu allan i'w hardal yn cael eu derbyn, ac roedd hynny yn ei dro'n golygu bod llai o leoedd ar gael i garcharorion lleol. Roedd hyn yn cael effaith

niweidiol ar ddarpariaeth ailsefydlu, a oedd yn fwy o her i garcharorion o'r tu allan i'r ardal. Mewn rhai carchardai, roedd derbyn carcharorion o'r tu allan i'r ardal yn arwain at gynnydd yn aelodau'r grŵp troseddu cyfundrefnol (OCG), ac nid oedd y staff wedi arfer gweithio â hwy.

Roedd ymdrechion y Gwasanaeth Carchardai i sicrhau mwy o le yn cyflymu symudiad drwy'r system i nifer sylweddol o garcharorion. Roedd rhai Byrddau carchardai hyfforddi categori C, megis Stocken, yn dweud bod y carchar fel pe bai'n derbyn carcharorion yn llawer cynharach yn eu dedfryd nag o'r blaen. Gallai trosglwyddiadau i gategori diogelwch uwch (C i B, neu D i C) fod yn anodd i'w sicrhau. Yr un pryd, roedd trosglwyddiadau i garchardai agored yn digwydd yn gyflymach. Roedd Byrddau megis Wealstun, a oedd wedi bod yn bryderus yn y gorffennol ynglŷn â'r amser roedd yn ei gymryd i garcharorion drosglwyddo i garchardai agored, yn dweud bod y pryderon hyn wedi cael eu lliniaru.

Roedd tarfu sylweddol yn digwydd yn yr ystad agored o ganlyniad i'r newid yn y boblogaeth. Roedd y pwysau i symud carcharorion drwy'r system cyn gynted ag y bo modd, ac yn fwyaf arbennig y Cynllun Ailgategoreiddio Rhagdybiol Dros Dro (lle gallai carcharorion categori C a oedd wedi cael asesiad risg ac a oedd yn agosáu at ddiwedd eu dedfryd gael eu hanfon i garchar agored), yn golygu bod carchardai agored yn cadw poblogaeth lawer llai sefydlog. Roedd y Byrddau'n dweud bod cryn dipyn o ddrwgdeimlad rhwng carcharorion newydd a'r poblogaethau presennol, er bod achosion o ymladd neu ymosodiadau yn anghyffredin, ac yn fynych canfyddid bod carcharorion newydd a oedd yn cyrraedd yn anaddas ar gyfer amodau agored ac yn cael eu dychwelyd i garchardai caeedig, yn aml ar sail un-am-un.

## 1.1. Diogelwch

### Roedd prosesau derbyn a chynefino dan bwysau

Gallai rheoli prosesau derbyn a chynefino fod yn her i'r carchardai niferus a oedd yn derbyn nifer fawr o garcharorion yn ystod y flwyddyn. Roedd llawer o Fyrddau yn cyfeirio at gyrraedd yn hwyr, a allai achosi problemau mawr os oedd staff gofal iechyd wedi gadael am y diwrnod, neu os nad oedd bwyd ar gael yn rhwydd. Roedd carcharorion yn cyrraedd yn hwyr yn bryder penodol i Fyrddau yn yr ystad menywod, yn rhannol oherwydd bod menywod weithiau'n rhannu cerbydau hebrwng gyda dynion. Yn aml iawn yn yr achosion hyn y menywod oedd y rhai olaf i gael eu gollwng, ac roeddent yn treulio cyfnodau hir mewn faniau. Dywedodd nifer o Fyrddau carchardai menywod bod menywod yn cyrraedd yn hwyr iawn, a hynny yn oriau mân y bore weithiau.

Gwelodd y Byrddau hefyd garcharorion yn cael eu symud yn gyflym o unedau cynefino i wneud lle i garcharorion newydd a oedd yn cyrraedd, neu'n aros mewn unedau cynefino/noson gyntaf am lawer mwy o amser nag a fwriadwyd nes byddai lle wedi'i ganfod iddynt ar yr adenydd.

### Roedd angen gwelliannau er mwyn diogelu carcharorion yr oedd risg iddynt ddiweddu eu hunain ac achosi niwed iddynt eu hunain

Roedd hunan-niweidio yn parhau'n broblem fawr ar draws yr ystad, yn enwedig mewn carchardai derbyn ac yn yr ystad menywod. Roedd ffigurau hunan-niweidio

ym mhob carchar yn aml yn cael eu heffeithio gan y rhai hynny a oedd yn niweidio eu hunain dro ar ôl tro.

Er bod llawer o'r Byrddau Monitro Annibynnol yn dweud bod swyddogion carchar yn dosturiol, a'u bod wedi ymrwymo i gefnogi carcharorion yr oedd risg iddynt niweidio eu hunain, nid oedd pob un yn ffyddiog bod y swyddogion wedi'u paratoi'n ddigonol i ddiogelu'r carcharorion bregus hyn. Yn fwyaf arbennig, mynegodd rhai Byrddau bryder nad oedd y gwaith o ddogfennu'r broses Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT), sy'n cefnogi carcharorion y mae risg iddynt niweidio eu hunain, yn cael ei gwblhau'n foddhaol bob amser. Yn Dartmoor, mynegodd y Bwrdd bryder ynglŷn ag ansawdd rhai o'r adolygiadau ACCT; o ganlyniad, derbyniodd y carchar fod angen gwella ansawdd y broses ACCT, yn enwedig diffyg manylion yn y cynlluniau gofal.

Pan oedd dogfennau ACCT yn achosi pryder i Fyrddau, roedd fel arfer yn cael ei briodoli i'r canlynol: staff wedi'u hymestyn i'r eithaf o ganlyniad i gymhareb anghymesur o garcharorion i bob aelod o'r staff; diffyg profiad rhai o'r staff, a allai olygu bod dogfennau heb eu cwblhau'n iawn; neu anhawster i addasu i ganllawiau ACCT wedi'u diweddaru, y teimlai llawer o'r staff eu bod yn fwy beichus i'w dilyn na'r fersiwn blaenorol.[9]

Roedd hunan-niweidio yn achosi cryn bryder ym mhob rhan o'r ystad menywod, lle'r oedd y lefel uchel o anghenion iechyd meddwl yn aml yn effeithio ar weithrediad ar draws y carchardai yn eu cyfanrwydd, wrth i'r staff gael anhawster i gadw menywod yn ddiogel. Roedd y Byrddau yn yr ystad menywod yn dweud bod mwy o broblemau iechyd meddwl difrifol ymhlith y garfan hon, ac yn gofyn beth oedd wrth wraidd y cynnydd dramatig hwn mewn anghenion cymhleth.

Roedd marwolaethau wedi'u hachosi gan yr unigolyn ei hun (SID) hefyd yn bryder amlwg drwy gydol 2023. Cyfeiriodd nifer o Fyrddau (Leeds, Lerpwl, Lowdham Grange, Styal, Wandsworth, a Wymott) at glystyrau o SID yn digwydd dros gyfnod byr, a charchardai yn gorfod cael cymorth ychwanegol gan HMPPS. Roedd y carchardai hyn i gyd yn profi pryderon diogelwch ehangach – nodwyd lefelau uchel o eitemau anghyfreithlon gan bob Bwrdd, a chyfeirid yn aml hefyd at drais, problemau staffio ac unedau gofal a gwahanu (CSU) dan bwysau.

Ar ôl i'r llywodraeth wrthod argymhelliad ailddedfrydu'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar gyfer carcharorion sy'n treulio dedfrydau o Garchar er mwyn Diogelu'r Cyhoedd (IPP) ym mis Chwefror 2023, gwelwyd cynnydd sydyn dros dro mewn marwolaethau wedi'u hachosi gan yr unigolyn ei hun ymhlith carcharorion IPP. Adroddwyd am dri achos o farwolaethau a oedd yn ôl pob golwg wedi'u hachosi gan yr unigolyn ei hun ymhlith carcharorion IPP ym Mryste, Coldingley, a Swaleside cyn pen pedair wythnos ar ôl y cyhoeddiad.

**Roedd trais ac anhrefn yn gysylltiedig â gorboblogi**

Er nad yw pob lleoliad yr un fath, roedd llawer o Fyrddau'n disgrifio amgylchedd cynyddol ansefydlog yn y carchardai roeddent yn eu monitro, yn bennaf o ganlyniad i amodau gorlawn a newidiadau yn nemograffeg y carcharorion a dderbynnid. Gallai amgylcheddau gorlawn arwain at anawsterau wrth geisio cadw carcharorion yr oedd gwrthdaro rhyngddynt oddi wrth ei gilydd; roedd hon yn broblem benodol mewn carchardai â phoblogaeth uchel o OCG, er enghraifft Pentonville. Roedd Byrddau

carchardai hyfforddi categori C, megis Buckley Hall, yn dweud bod y carcharorion a dderbynnid yn tueddu i fod yn iau, ac yn tueddu i darfu mwy nag o'r blaen, gan ddadsefydlogi amgylchedd a arferai fod yn dawel.

Roedd trefniadau rheoli celloedd yn achos pryder mawr i lawer o Fyrddau. Cyfeiriodd nifer at gynnydd mewn achosion o ymladd a dyfarniadau. Nid oedd asesiadau risg rhannu celloedd yn cael eu gwneud yn briodol bob amser, oherwydd y pwysau i symud carcharorion o adenydd cynefino mewn rhai sefydliadau, neu i ddefnyddio cynifer o gelloedd ag a oedd yn bosibl ar gyfer dau garcharor. Clywodd IMB Dartmoor gan garcharor bregus ei fod wedi gorfod rhannu cell gyda charcharor ymosodol, a dywedodd IMB Hewell na ellid lleoli 114 o garcharorion risg uchel mewn celloedd ar eu pen eu hunain ar ddiwedd y flwyddyn adrodd.

Roedd adroddiadau hefyd am garcharorion bregus yn cael eu cadw ar brif leoliad neu mewn unedau cynefino am gyfnod hir, ac am garcharorion prif ffrwd yn cael eu cadw mewn unedau i garcharorion bregus, gan arwain at bryder ynglŷn â diogelwch carcharorion bregus.

Mewn carchardai menywod, roedd cyfraddau hunan-niweidio uchel yn gysylltiedig â lefelau uchel a chyson o ymosodiadau ar staff. Roedd llawer o'r ymosodiadau wedi digwydd pan oedd staff wedi gorfod ymyrryd yn gorfforol i atal menywod rhag niweidio eu hunain.

**Roedd y defnydd o rym yn amrywio**

Roedd defnyddio grym a goruchwylio a rheoli hynny'n amrywio'n sylweddol ar draws carchardai a oedd yn dal dynion a menywod.

Roedd rhai Byrddau yn cyfeirio at ddefnydd cynyddol, er enghraifft yn Durham a Coldingley – cyfeiriodd IMB Coldingley at gynnydd sylweddol o bron i 60% hyd at y flwyddyn yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2023. Roedd cynnydd yn aml fel pe bai'n gysylltiedig â lefelau staffio isel, defnyddio cyffuriau'n aml, gallu cael gafael ar gyffuriau, a newidiadau i'r boblogaeth.

Roedd llawer o'r Byrddau yn adrodd am well goruchwyliaeth, ac roedd y rhan fwyaf o'r carchardai yn dadansoddi patrymau ac yn cynnal cyfarfodydd wythnosol i drafod digwyddiadau. Nododd IMB Risley oruchwyliaeth arbennig o dda o ddigwyddiadau yn ymwneud â charcharorion bregus, ac roedd trefniadau i graffu ar ddigwyddiadau yn Styal i weld a oeddent yn ystyried trawma.

Er hyn, roedd defnydd y staff o gamerâu fideo a wisgir ar y corff yn wael at ei gilydd. Adroddodd Byrddau Brixton, Low Newton a Rochester nad oedd staff yn rhoi eu camerâu ymlaen yn ddigon buan pan oedd digwyddiad yn dechrau, ac roedd Byrddau Brixton a Low Newton yn nodi pryder bod staff yn ymddangos yn gyndyn o wneud hynny. Roedd IMB Hewell hefyd yn bryderus nad oedd digon o ddefnydd yn cael ei wneud o gamerâu fideo a wisgir ar y corff.

Drwy gydol 2023, mynegodd y Byrddau bryder ynglŷn â phatrymau heb eu hegluro rhwng defnydd o rym ac ethnigrwydd a chrefydd carcharorion. Mynegodd Byrddau Birmingham a Brixton bryder ynglŷn â data defnyddio grym, a oedd yn dangos defnydd anghymesur ar garcharorion du, a hefyd, yn Birmingham, ar garcharorion hil

gymysg. Holodd IMB Coldingley HMPPS ynglŷn â'r nifer anghymesur o garcharorion Mwslimaidd mewn digwyddiadau defnyddio grym.

**Roedd cyffredinrwydd eitemau anghyfreithlon yn broblem ym mhob carchar**

Roedd eitemau anghyfreithlon yn fater a oedd yn peri pryder i lawer o'r Byrddau, ac yn rhychwantu pob categori diogelwch. Cyffuriau oedd y mater amlycaf o bell ffordd. Thema gyffredin oedd cynnydd ymddangosiadol yn y defnydd o'r canabinoid synthetig Spice, a chynnydd o ganlyniad i hynny mewn ymddygiad afreolus (yn cynnwys trais weithiau) ac argyfyngau meddygol. Mewn carchardai agored, camddefnyddio sylweddau oedd y prif ffactor y tu ôl i achosion o ddychwelyd i amodau caeedig.

## 1.2 Triniaeth deg a dyngarol

**Roedd amodau byw gwael yn rhy aml o'r hanner yn cael eu hystyried yn 'driniaeth annynol'**

Roedd amodau ffisegol gwael yn parhau'n bryder cyffredin ar draws yr ystad, ac roeddent yn cael effeithiau difrifol ac eang ar ansawdd bywyd carcharorion. Roedd gohirio gwaith cynnal a chadw nad oedd yn cael ei ystyried yn hanfodol gan HMPPS yn gwneud problemau a oedd yn bodoli'n barod ag adeiladwaith llawer o garchardai yn waeth. O ganlyniad, roedd rhai Byrddau o'r farn fod carcharorion yn cael eu cadw mewn amodau y byddid yn eu hystyried yn driniaeth annynol.

Enghraifft o hyn yw diffyg cyfleusterau glanweithdra mewn celloedd, sydd i'w weld o hyd yn Coldingley, Ynys Wyth, Grendon, Long Lartin a Bryste. Mae hyn yn golygu bod rhai carcharorion yn gorfod defnyddio bwcedi, ac yn gorfod 'gwagio'r bwcedi', â chanlyniadau difrifol o ran hylendid ac urddas. Yn Coldingley, lle'r oedd nifer sylweddol o gelloedd heb gyfleusterau glanweithdra ynddynt, a dim modd defnyddio'r toiledau cymunol yn aml, disgrifiodd y Bwrdd yr amodau a oedd yn deillio o hynny fel 'arswydus'. Yn Long Lartin, roedd y Bwrdd o'r farn fod y diffyg cyfleusterau glanweithdra mewn celloedd a methiant aml y system Night-San yn arwain at 'driniaeth annynol', gan nodi mai dim ond dŵr potel oedd gan garcharorion i olchi eu dwylo.

Roedd gwresogi ac awyru yn broblemau cyffredin iawn, â Byrddau'n dweud bod carcharorion naill ai'n wynebu oerni eithafol (yn aml heb ddigon o flancedi, fel yn Nottingham), neu wres (a oedd yn ôl Styal yn anodd iawn i fenywod ar y menopos).

Roedd yr amgylchedd ffisegol yn anaddas iawn i garcharorion oedrannus neu anabl, a oedd yn aml yn cael eu lleoli mewn unedau gofal iechyd, ac mewn rhai achosion mewn unedau gofal a gwahanu, oherwydd diffyg llety priodol yn rhywle arall. O ganlyniad, nid oedd y carcharorion hyn yn gallu cyflawni tasgau dyddiol sylfaenol (fel cael cawod a gwneud galwadau ffôn), gweithgaredd ystyrlon a chymdeithasu. Cyfeiriodd Byrddau Dartmoor a Lancaster Farms at achosion lle'r oedd carcharorion mewn celloedd a rennid yn cysgu ar y llawr gan nad oeddent yn gallu dringo i'r bync uchaf. Nid oedd darpariaeth dda ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn; roedd Long Lartin yn dal i dderbyn y carcharorion hyn er nad oedd celloedd addas yno, ac yn Stafford roedd cyflwr gwael y llwybrau yn achosi risgiau sylweddol i ddiogelwch.

Roedd yr amodau mewn carchardai Fictoraidd yn ddrwg iawn, ac roedd y ffaith fod gan lawer o'r carchardai hyn swyddogaeth derbyn yn gwneud pethau'n waeth. Gan fod mwy o fynd a dod mewn carchardai derbyn roedd yn anos cadw celloedd mewn safon dderbyniol. Roedd oedran y carchardai hyn yn golygu ei bod yn anodd cadw adeiladau'n weithredol ac yn weddus – er enghraifft, roedd IMB Winchester yn adrodd am gyflwr gwael y waliau a'r toeau ym mhob rhan o'r carchar, a hynny'n arwain at bibellau'n gollwng, llifogydd, a pheryglon llithro.

Ond nid carchardai Fictoraidd oedd yr unig rai â phroblemau llety. Roedd gan nifer o Fyrddau a oedd yn monitro mewn carchardai mwy modern bryderon difrifol hefyd. Yn Woodhill, a adeiladwyd yn 1992, roedd cyflwr y cawodydd yn annerbyniol ac roedd y llawr concrid mewn llawer o gelloedd yn cracio, gan olygu ei bod yn amhosibl ei lanhau. Yn Five Wells, a adeiladwyd yn 2022, adroddodd y Bwrdd am ddiffygion dylunio sylweddol nad oeddent wedi cael eu cywiro eto; roedd y rhain yn cynnwys llif aer gwael ar y landins, yn arwain at dymheredd anghyfforddus o boeth ym misoedd yr haf, a chelloedd anodd symud o gwmpas ynddynt na ellid eu defnyddio am resymau diogelwch.

Mewn rhai carchardai, roedd gwaith cynnal a chadw yn cael ei ohirio hyd yn oed pan oedd yn achosi pryder yn ymwneud â diogelwch. Yn Pentonville, bu'n rhaid gohirio cynllun adnewyddu ffenestri, y bernid ei fod yn bwysig iawn er mwyn atal carcharorion rhag dianc, oherwydd bod y carchar yn rhy lawn i golli defnydd o'r celloedd. Yn Winchester, roedd nifer o achlysuron drwy gydol y flwyddyn lle'r oedd carcharorion wedi gallu difrodi a cheisio tyllu drwy waliau celloedd, drwy'r wal i'r landin ar un achlysur, gan ddefnyddio offer syml fel cyllyll a ffyrc plastig.

### Roedd ansawdd, swm a'r dewis o fwyd yn wael ac yn cael ei effeithio gan gynnydd mewn costau

Roedd carcharorion yn cwyno'n aml wrth y Byrddau ynglŷn ag ansawdd y bwyd, dim digon o fwyd, a dim digon o ddewis. Roedd carcharorion nad oeddent wedi cael digon o fwyd yn aml yn bwyta bwyd a fwriadwyd ar gyfer prydau yn nes ymlaen neu fwyd cantîn, er bod llawer o'r Byrddau'n dweud bod prisiau'r cantîn wedi codi ac nad oedd cynnydd yng nghyflogau carcharorion neu eu terfyn gwario. Nid oedd rhai carcharorion a oedd angen deiet arbennig oherwydd eu hiechyd neu am resymau crefyddol yn cael deiet arbennig. Roedd amser prydau bwyd, yn enwedig prydau poeth, yn achos pryder hefyd, gan fod carcharorion weithiau'n derbyn prydau bwyd ar adegau amhriodol, neu'n derbyn mwy nag un o'u prydau dyddiol yr un pryd.

Roedd gan lawer o geginau carchar broblemau cynnal a chadw, ag offer wedi torri yn cyfyngu ar fwydlenni, a gwaith atgyweirio'n cael ei ddal yn ôl yn aml. Roedd rhai carchardai hefyd yn cael problemau â chyflenwyr bwyd neu gontractwyr newydd.

### Roedd gwahanu carcharorion ag anghenion iechyd meddwl difrifol yn parhau

Roedd unedau gofal a gwahanu (CSU) yn parhau'n amgylcheddau a oedd yn peri gofid at ei gilydd, ac roedd gorlenwi a phwysau poblogaeth yn gwneud pethau'n waeth gan eu bod yn achosi mwy o orlenwi a mynd a dod mewn unedau gofal a gwahanu ar draws yr ystad.

Roedd nifer o Fyrddau, er enghraifft Winchester, yn dweud bod yr unedau gofal a gwahanu yn llawn o hyd, a bod carcharorion yn hytrach yn cael eu gwahanu drwy gael eu cadw yn eu celloedd ar yr adenydd. Yn Buckley Hall, roedd cosbi drwy gaethiwo mewn cell yn cael ei ddefnyddio weithiau oherwydd prinder lle yn yr unedau gofal a gwahanu, ac roedd hyn yn effeithio ar allu'r carchar i gadw disgyblaeth dda.

Oherwydd prinder lle ar 'leoliad arferol' roedd yn anodd gwahanu carcharorion yr oedd drwgdeimlad rhyngddynt (oherwydd dyled, er enghraifft) ar wahanol adenydd. O ganlyniad, roedd mwy a mwy o garcharorion yn cael eu cadw mewn unedau gofal a gwahanu er eu 'diogelwch eu hunain' yn lle hynny.

Roedd unedau gofal a gwahanu yn aml iawn yn llawn carcharorion ag anghenion iechyd meddwl difrifol na ellid gofalu amdanynt mewn prif leoliad. Gallai'r carcharorion hyn dreulio cyfnodau hir iawn ar wahân – dros 100 diwrnod yn aml, a mwy weithiau – gan fod staff carchardai a gofal iechyd yn methu â threfnu iddynt gael eu symud i leoliad mwy addas. Roedd prinder ysbytai diogel yn genedlaethol yn achosi asesiadau a throsglwyddiadau gohiriedig i'r adnoddau hyn ac nid oedd gan HMPPS unedau arbenigol a chyfleusterau cleifion mewnol i ofalu'n briodol am y carcharorion hyn.[10]

Yn gyffredinol, roedd y Byrddau'n credu bod staff unedau gofal a gwahanu yn ymroddedig, yn gweithio'n galed ac yn dosturiol. Er bod rhai Byrddau yn credu eu bod yn fedrus iawn wrth reoli carcharorion heriol iawn, roedd consensws nad oedd y staff hyn yn cael digon o hyfforddiant penodol nac adnoddau.

**Roedd prinder staff yn cael effaith negyddol ar berthnasoedd gyda charcharorion**

Roedd newidiadau staff a phrinder staff yn parhau i gael effaith andwyol ar y berthynas rhwng staff a charcharorion mewn llawer o garchardai. Roedd swyddogion profiadol yn aml yn gorfod taenu'u hunain yn rhy denau ac yn methu ag adeiladu perthnasoedd cryf â charcharorion, ac roedd swyddogion newydd yn aml dan hyfforddiant. Roedd swyddogion hefyd yn cael eu hadleoli i garchardai eraill ar ddyletswydd neilltuol, lle'r oedd diffyg cyfathrebu â charcharorion.

Lle'r oedd staffio yn fwy cadarn a chyson, roedd manteision amlwg i sefydlogrwydd y carchar.

### *Ychydig iawn o waith allweddol oedd yn bodoli mewn rhai carchardai*

Roedd gwaith allweddol yn parhau'n wael ar draws yr ystad. Roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â phrinder staff. Er bod arwyddion o welliant, yn enwedig yn niwedd 2023, dywedodd pob Bwrdd nad oedd gwaith allweddol yn digwydd fel y bwriedid iddo ddigwydd, a dywedodd nifer o Fyrddau mai ychydig iawn o waith allweddol oedd yn digwydd. Roedd hyn yn bryderus iawn i Fyrddau a oedd yn monitro carchardai â lefelau uchel o hunan-niweidio, megis Hewell, a oedd yn gweld hyn fel colli cyfle i gynorthwyo carcharorion a lleihau cyfraddau hunan-niweidio.

**Roedd colli eiddo ac eiddo ar goll yn parhau'n broblem fawr ar draws yr ystad carchardai**

Drwy gydol 2023, roedd Byrddau Monitro Annibynnol yn genedlaethol yn parhau'n bryderus iawn ynglŷn â cholli eiddo neu eiddo ar goll. Yr elfen fwyaf problemus oedd trosglwyddo eiddo. Roedd eiddo yn debygol iawn o fynd ar goll os oedd carcharor yn gadael un carchar â mwy o eiddo nag y caniateid iddo ei gael wrth deithio, a bod yr eiddo o ganlyniad yn gorfod cael ei anfon ymlaen ar ôl iddo adael. Roedd eiddo'n cael ei golli'n aml, ac roedd aneffeithlonrwydd y system olrhain bapur hefyd yn arwain at ddiffyg tryloywder ac atebolrwydd.

Roedd colli eiddo yn cael effaith negyddol ar garcharorion, a allai golli papurau cyfreithiol pwysig ac eitemau o werth sentimental mawr wrth drosglwyddo. Er gwaethaf pwysigrwydd hyn i les carcharorion, roedd y Byrddau'n gweld bod swyddogion yn cymryd llawer gormod o amser i ddatrys cwynion am eiddo.

Roedd rheolau eiddo lleol yn anghyson – roedd rhai eitemau wedi'u gwahardd mewn rhai carchardai ac yn cael eu caniatáu mewn eraill. Roedd hyn yn cynnwys eitemau gwerthfawr iawn, megis consolau gemau fideo. Roedd hyn yn achosi llawer iawn o ofid a rhwystredigaeth i garcharorion, a oedd yn teimlo ei bod yn annheg pan oeddent yn colli mynediad at yr eitemau hyn wrth gael eu trosglwyddo.

**Roedd angen mwy o bwyslais ar waith cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Adroddodd llawer o'r Byrddau am ddiffyg staff cydraddoldeb ag adnoddau pwrpasol. Yn aml iawn roedd swyddi cydraddoldeb naill ai'n cael eu gadael yn wag, roedd eu cyllidebau'n fach, neu roedd ganddynt drosiant staff uchel, ac roedd nifer yn cael eu hadleoli oherwydd prinder staff yn rhywle arall. Pan oedd hyn yn digwydd, y canlyniad oedd dim llawer o weithgaredd i hybu triniaeth gyfartal a theg i grwpiau o garcharorion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Canfuwyd diffygion yn ymwneud â rheoli cwynion gwahaniaethu (y cyfeirir atynt fel DIRF) mewn carchardai dynion ac mewn carchardai i fenywod. Cyfeiriodd y Byrddau at amseroedd ymateb araf staff i DIRF, ansawdd anghyson ymchwiliadau a oedd yn aml yn cael eu gwneud gan staff heb hyfforddiant perthnasol, a diffyg hyder carcharorion yn y broses. Yn gyffredinol, canfu'r Byrddau fod y broses DIRF yn well pan oedd gan y carchar broses graffu allanol, ond dywedodd y Byrddau fod hyn wedi dod i ben mewn nifer fach o garchardai. Nid oedd honiadau o driniaeth annheg neu wahaniaethu y rhoddid gwybod amdanynt gan garcharorion, ond nid drwy DIRF, yn cael eu trin yn sensitif gan staff bob amser.

Roedd y broses o gasglu a dadansoddi data amrywiaeth carcharorion yn anghyson. Mewn ychydig o sefydliadau, nid oedd data am nodweddion gwarchodedig carcharorion yn cael eu cofnodi neu eu hadolygu'n systematig, ond mewn eraill roedd staff yn dadansoddi data amrywiaeth yn drylwyr ac yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw batrymau annisgwyl.

## 1.3 Iechyd a lles

**Roedd prinder staff yn cael effaith negyddol ar iechyd carcharorion**

Roedd staffio gofal iechyd yn faes a oedd yn peri pryder yn gyffredinol i Fyrddau, gan fod y staff wedi'u hymestyn i'r eithaf yn aml. Roedd llawer o garchardai yn cael anhawster i recriwtio staff gofal iechyd. Roedd newidiadau i gontractwyr gofal iechyd yn achosi rhagor o darfu mewn carchardai eraill. Roedd rhai darparwyr gofal iechyd yn dibynnu ar staff asiantaeth i lenwi bylchau pan oedd prinder staff, ond roedd hyn yn tarfu ar weithrediad y gwasanaeth gan nad oedd y staff hyn mor gyfarwydd â gweithrediad carchardai unigol.

Yn ogystal, roedd y galw am swyddogion i hebrwng i apwyntiadau gofal iechyd yn rhoi pwysau ar garchardai a oedd yn brin o staff, yn enwedig pan oedd angen hebryngwyr ar gyfer apwyntiadau ysbyty allanol, neu pan oedd angen swyddogion i ddarparu goruchwyliaeth tra oedd carcharor yn derbyn gofal fel claf mewnol mewn ysbyty cymunedol ('gwylio gwely'). Roedd y galw hwn yn waeth mewn carchardai lle'r oedd cyfran uchel o garcharorion hŷn, megis Haverigg, lle gellid teimlo'r pwysau hyd yn oed pan oedd lefelau staffio'n ddigonol at ei gilydd.

Roedd pryder cyffredin ymhlith y Byrddau ynglŷn ag anawsterau rheoli meddyginiaeth mewn carchardai. Roedd hyn yn gysylltiedig gan mwyaf â phrinder swyddogion (a allai amharu ar y gwaith o fonitro ciwiau wrth ddrysau fferyllfeydd a'i gwneud yn anodd i staff hebrwng carcharorion i gasglu eu meddyginiaeth mewn pryd), prinder staff fferyllol, a chyfathrebu gwael rhwng staff carchardai a staff gofal iechyd. Cyfeiriodd IMB Styal at broblemau difrifol iawn â menywod yn derbyn y feddyginiaeth iawn ar yr adeg iawn, a oedd yn cael effaith andwyol ar fywydau bob dydd y menywod hyn, gan gynnwys eu mynediad at addysg a gwaith.

**Roedd gwasanaethau iechyd meddwl dan bwysau**

Roedd llawer o broblemau iechyd meddwl, yn enwedig ymhlith menywod mewn carchar. Roedd gwasanaethau iechyd meddwl yn aml yn brin o staff ac yn cael anhawster i fodloni'r galw. Roedd darpariaeth iechyd meddwl annigonol yn bryder mawr mewn llawer o garchardai.

**Roedd anghenion iechyd meddwl menywod yn uchel**

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd yr IMB adroddiad ar bryderon am iechyd meddwl mewn carchardai i fenywod. Roedd menywod yn cael eu hanfon i'r carchar oherwydd rhesymau iechyd meddwl yn unig fel 'man diogel' dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, neu er eu 'diogelwch eu hunain' dan y Ddeddf Mechnïaeth. Roedd y canfyddiadau eraill yn cynnwys:

- Cynnydd dramatig mewn cyfraddau hunan-niweidio yn yr ystad menywod.
- Prinder lleoedd mewn cyfleusterau ar gyfer cleifion mewnol a chyfleusterau arbenigol mewn carchardai i fenywod, o gymharu â lefel uchel yr angen.
- Menywod ag anghenion iechyd meddwl difrifol yn cael eu cadw ar wahân, a'r broses o drosglwyddo menywod i ysbytai diogel lle gellid gofalu'n briodol amdanynt yn cymryd llawer gormod o amser.
- Y straen yr oedd gofalu am anghenion cymhleth llawer o fenywod gwael yn ei roi ar weithrediad cyffredinol carchardai, yn enwedig os oeddent eisoes yn brin o staff.

***Roedd oedi cyn trosglwyddo i ysbytai diogel yn parhau'n broblem genedlaethol***

Dylai carcharorion ag anghenion iechyd meddwl difrifol sydd angen gofal mewn ysbyty diogel gael eu trosglwyddo cyn pen 28 diwrnod.[11] Mae llawer o'r Byrddau sy'n monitro mewn carchardai yn Lloegr wedi cyfeirio droeon at bryder difrifol nad oedd yr amserlen hon yn cael ei bodloni, a chanfuwyd oedi yn y camau atgyfeirio, asesu, a throsglwyddo. Roedd carcharorion a oedd wirioneddol angen gofal iechyd meddwl dynodedig, nad oedd carchar yn lleoliad priodol iddynt, yn wynebu amser aros hir iawn cyn cael eu trosglwyddo.

**Roedd rhai carcharorion yn dal i dreulio gormod o amser yn eu celloedd â rheolwaith na ellid ei ragweld**

Er gwaethaf gwelliant cyffredinol ar draws yr ystad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd amser allan o'r gell yn parhau'n rhy isel yn y rhan fwyaf o'r carchardai, yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau. Dywedodd nifer o Fyrddau, yn enwedig mewn carchardai lleol, y gallai carcharorion nad oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgaredd â phwrpas iddo dreulio 22 awr neu ragor y tu ôl i ddrysau cell fel mater o drefn.

Roedd rheolwaith yn cael ei ganslo neu ei gwtogi yn annisgwyl. Roedd rheolwaith â chyfyngiadau difrifol yn gyffredin iawn yn achos carcharorion bregus a rhai a oedd yn hunanynysu neu wedi'u gwahanu ar adenydd.

Roedd diffyg rheolwaith ac amser allan o'r gell yn digwydd yn bennaf oherwydd prinder staff, blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, neu faterion rheoli trais a diogelwch. Gwelodd y Byrddau reolwaith yn cael ei ganslo oherwydd hyfforddiant staff, lefelau uchel o salwch staff, neu swyddogion yn cael eu hadleoli o'u dyletswyddau creiddiol mewn ymateb i faterion a oedd yn codi (er enghraifft, i hebrwng carcharorion i'r ysbyty neu i gynorthwyo â charcharorion cymhleth iawn).

Dywedodd IMB Woodhill fod carcharorion yn treulio mwy o amser yn eu celloedd oherwydd lefelau uchel o drais, a dywedodd IMB Pentonville fod pwysau rheoli 'cadw ar wahân' (cadw carcharorion yr oedd drwgdeimlad rhyngddynt ar wahân drwy reolwaith gwahanol) yn tarfu ar reolwaith y carchar cyfan.

Roedd natur anrhagweladwy'r rheolwaith yn gadael ei ôl ar garcharorion – roedd rhai Byrddau'n cysylltu'r rhwystredigaeth a achoswyd gan ganslo rheolwaith ag ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, fel yn Wormwood Scrubs, neu fwy o risg o hunan-niweidio, fel yn Doncaster.

## 1.4 Cynnydd ac ailsefydlu

### Roedd gweithgaredd â phwrpas iddo'n parhau'n isel iawn

Fel yn achos amser allan o'r gell, er bod darparu hyfforddiant ac addysg alwedigaethol wedi gwella yn ystod y flwyddyn, yn rhy aml o'r hanner roedd yn cael ei atal gan broblemau staffio. Roedd prinder staff addysg a hyfforddiant yn gyffredin ac roedd yn anodd recriwtio i'r meysydd hyn. Gallai prinder swyddogion hefyd effeithio ar y ddarpariaeth, â chyfyngiadau symud ar adenydd neu brinder swyddogion ar gael i hebrwng carcharorion o'u celloedd yn arwain at ganslo a cholli sesiynau.

Er mwyn gwella'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig, roedd y carchardai yn aml yn cynnal gwaith ac addysg ar sail ran-amser. At ei gilydd roedd y Byrddau'n teimlo bod hyn yn well na gweld cyfran helaeth o'r carcharorion yn mynd heb unrhyw weithgaredd â phwrpas iddo. Er hyn, roedd y Byrddau'n mynegi pryder bod data ynglŷn ag addysg/gwaith rhan-amser yn cuddio'r gwirionedd ynglŷn â faint o garcharorion oedd â dim byd i'w wneud: er enghraifft, yn Dartmoor roedd y rhan fwyaf o'r carcharorion wedi cael mynediad at weithgaredd â phwrpas iddo, ond dim ond 41% oedd yn ymwneud â gweithgaredd ar adeg benodol yn ystod y diwrnod gwaith.

### Nid oedd carcharorion yn gallu cael mynediad at gyfleoedd i wneud cynnydd bob amser

Roedd Byrddau'n cyfeirio at nifer o rwystrau a oedd yn atal cynnydd. Tynnodd llawer o Fyrddau sylw at yr anawsterau yr oedd carcharorion yn eu hwynebu wrth geisio cael trosglwyddiadau a oedd yn arwain at gynnydd, ac roedd IMB High Down yn disgrifio'r 'rhwystredigaeth a'r anobaith' a deimlid gan y carcharorion hyn.

Roedd carcharorion yn aml yn cael anhawster i gael mynediad at y rhaglenni ymddygiad troseddol roedd angen iddynt eu cwblhau er mwyn symud ymlaen, ac roeddent yn methu â throsglwyddo i garchardai a oedd yn cynnig y rhaglenni hyn, ac o bosibl yn treulio mwy o amser yn y carchar.

Roedd rhai Byrddau'n dweud bod pwysau poblogaeth wedi golygu bod rhai carcharorion yn symud ymlaen drwy'r ystad yn gyflymach, ond yn achos carcharorion a oedd yn cael eu trosglwyddo i'r ystad agored dan TPRS yn fwyaf arbennig, roedd 'rhuthro drwodd' yn dod â'i heriau ei hun. Un o brif bryderon Byrddau categori D oedd bod carcharorion TPRS yn cael eu trosglwyddo mor agos at ddiwedd eu dedfrydau fel nad oeddent yn gymwys ar gyfer llawer o'r cyfleoedd

adsefydlu a gynigid gan garchardai agored, ac yn aml iawn roedd staff yn gorfod brysio i baratoi cynllun rhyddhau mewn pryd. Dywedodd IMB Thorn Cross ei bod bron yn amhosibl dod o hyd i waith adsefydlu ystyrlon ar gyfer y carcharorion hyn.

Yn ychwanegol at y problemau hyn roedd prinder staff mewn llawer o unedau rheoli troseddwyr (OMU). Roedd hyn yn arwain at broblemau fel asesiadau system asesu troseddwyr (OASys) wedi crynhoi ac oedi cyn cymeradwyo rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL), a fydd yn caniatáu i garcharorion adael y carchar i gael mynediad at waith y tu allan neu gyswllt â theulu er mwyn paratoi ar gyfer rhyddhau'n llwyddiannus.

**Rhwystrau sy'n atal cynnydd i garcharorion sy'n treulio dedfrydau o Garchar er mwyn Diogelu'r Cyhoedd (IPP)**

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd yr IMB bapur briffio ar effaith dedfrydau IPP ar les carcharorion. Roedd y canfyddiadau'n dangos bod carcharorion IPP yn wynebu rhwystrau anodd iawn a oedd yn atal cynnydd ac yn gwneud y broses ryddhau yn anodd, gan gynnwys:

- Anawsterau wrth geisio cael mynediad at gyrsiau a oedd yn ofynnol yn eu cynlluniau dedfryd – roedd cyfran fawr o garcharorion IPP yn cael eu cadw mewn carchardai nad oeddent yn cynnig y cyrsiau yr oedd arnynt eu hangen.
- Heriau wrth geisio cael trosglwyddiadau i amodau agored; roedd hyd yn oed carcharorion a oedd wedi cwblhau pob un o'r cyrsiau yn eu cynllun dedfryd yn gallu gweld ei bod yn amhosibl iddynt symud ymlaen.
- Diffygion wrth baratoi ar gyfer gwrandawiadau parôl, a oedd yn ychwanegu at yr anhawster yr oedd carcharorion IPP yn ei gael wrth geisio dangos llai o risg o ganlyniad i'r ffactorau a restrwyd uchod.
- Dim llawer o baratoad ar gyfer bywyd yn y gymuned ar ôl cael eu rhyddhau, â rhai Byrddau'n mynegi pryder y gallai methiannau mewn gwasanaethau 'drwy'r gât' ac ailsefydlu fod wedi arwain at achosion o alw yn ôl i'r carchar.

**Roedd gwaith ailsefydlu yn annigonol ac yn rhoi carcharorion dan anfantais pan oeddent yn cael eu rhyddhau**

Roedd prinder staff prawf yn amharu'n ddifrifol ar ymdrechion ailsefydlu yn y rhan fwyaf o'r ystad gaeedig. Roedd yn anodd iawn i rai carcharorion gael unrhyw gyswllt ystyrlon â'u swyddogion prawf allanol (rheolwyr troseddwyr yn y gymuned), ac roedd hyn yn golygu eu bod yn ansicr ac yn bryderus yn ystod y cyfnod cyn cael eu rhyddhau.

Roedd carcharorion a oedd yn cael eu rhyddhau'n uniongyrchol o garchardai lleol neu garchardai hyfforddi yn wynebu anfanteision penodol, gan nad oedd y carchardai hyn wedi'u hariannu na'u paratoi'n ddigonol ar gyfer gwaith ailsefydlu. Mynegodd y Byrddau bryder bod carcharorion yn dal i gael eu rhyddhau o'r carchardai hyn yn hytrach na chael eu trosglwyddo i garchardai a oedd yn rhoi pwyslais ar ailsefydlu ymlaen llaw.

Roedd rhyddhau carcharorion yn ddigartref, a oedd yn gyffredin iawn yn achos carcharorion ar remand, yn bryder difrifol i lawer o Fyrddau. Roedd Pentonville, Hewell a Winchester yn cyfeirio at gyfraddau o 40-50% ar gyfer dynion yn cael eu rhyddhau heb lety. Yn ôl IMB Hewell roedd staff y carchar yn teimlo bod angen rhoi dillad cynnes i ddynion a oedd yn cael eu rhyddhau'n ddigartref. Roedd yr ystad menywod yn wynebu heriau tebyg, yn bennaf oherwydd prinder staff prawf a'r anawsterau yn ymwneud â chysylltu rhwng rhwydwaith cymhleth o asiantaethau. Yn Bronzefield, roedd arolwg a gynhaliwyd gan yr IMB yn Chwefror/Mawrth 2023 yn dangos mai dim ond 28% o'r menywod oedd yn cael eu rhyddhau i lety addas, a bod 31% yn cael eu rhyddhau'n ddigartref.

## 2. Sefydliadau troseddwyr ifanc

**Roedd angen gweithredu ar frys er mwyn gwella amodau mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn Lloegr**

Ym mis Mehefin 2023, ysgrifennodd Cadeirydd Cenedlaethol IMB at y Gweinidog Carchardai ar y pryd ar ran Byrddau a oedd yn monitro sefydliadau troseddwyr ifanc yn Lloegr. Roedd y llythyr yn tynnu sylw at bryderon difrifol y Byrddau ynglŷn â'r rheolwaith gwael a'r amodau anniogel, sy'n rhemp ym mhob sefydliad troseddwyr ifanc.

Roedd y Byrddau'n bryderus iawn ynglŷn â'r canlynol:

- Nid oedd llawer o blant a phobl ifanc yn treulio digon o amser allan o'u hystafell, a gallai'r rhai a oedd yn cael eu cadw ar wahân dreulio dros 23 awr y diwrnod yn eu hystafelloedd. Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn profi rheolwaith cyfyngedig na ellid ei ragweld, a diffyg addysg a gweithgaredd arall â phwrpas iddo.
- Roedd ymdrechion i reoli lefelau trais, ymddygiad gwael, ymosodiadau a chario arfau yn arwain at nifer fawr o achosion o gyfarwyddiadau 'cadw ar wahân' a mwy o ddefnydd o wahanu.
- Mewn rhai sefydliadau roedd diffygion mewn gofal a chymorth ar gyfer carfan gynyddol o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.
- Roedd staff yn wynebu straen yn gysylltiedig â gweithle, salwch a morâl isel, a oedd yn ychwanegu at y problemau prinder staff presennol ac yn gwneud y diffyg rheolwaith yn waeth.

Mewn gwrthgyferbyniad, yn uned pobl ifanc y Parc, uned lai wedi'i lleoli yng Nghymru, adroddodd y Bwrdd Monitro Annibynnol am ddigon o amser allan o'r ystafell, lefelau isel o drais, lefel dda o weithgareddau cyfoethogi, a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng y staff a'r plant, er bod y lefelau staffio'n isel.

Roedd pryderon y Byrddau a oedd yn monitro mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn Lloegr yr un fath i raddau helaeth yn ail hanner y flwyddyn. Er bod ychydig o welliannau wedi'u nodi, roedd y rhan fwyaf o'r Byrddau yn dal i weld diffygion difrifol o ran diogelwch a rheolwaith, yn enwedig o ran amser allan o'r ystafell.

### Newidiadau yn y boblogaeth

Roedd pob IMB a oedd yn monitro sefydliadau troseddwyr ifanc yn bryderus ynglŷn â nifer yr unigolion dros 18 oed a oedd yn cael eu cadw yn yr ystad ieuenctid er mwyn lleihau pwysau yn yr ystad carchardai oedolion. Roedd cyfran sylweddol o boblogaeth pob sefydliad troseddwyr ifanc yn unigolion dros 18 oed – dros 30% at ei gilydd. Er hyn, roedd y Byrddau'n cyfeirio at ddiffyg addysg, hyfforddiant, neu weithgaredd penodol ar gyfer y grŵp hwn. Roedd unigolion dros 18 yn cwyno nad oedd ganddynt ddim i'w wneud, ac o ganlyniad i hynny, roeddent yn ddigyfeiriad. Roedd y Byrddau a oedd yn monitro sefydliadau troseddwyr ifanc yn Lloegr yn codi pryder ynglŷn â nifer uchel yr unigolion dros 18 oed, gan fod hynny yn eu barn hwy

yn cyfrannu tuag at ddiffyg sefydlogrwydd mewn sefydliadau ac yn rhoi diogelwch bechgyn ifanc yn y fantol.

## 2.1. Diogelwch

### Roedd lefelau trais a chario arfau yn rhy uchel

Roedd trais ac arfau yn parhau'n bryderon canolog ymhlith Byrddau Lloegr, yn enwedig yn Cookham Wood, Werrington a Wetherby. Dywedodd Byrddau Cookham Wood a Feltham mai nifer fach o fechgyn oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r trais. Yn aml iawn roedd plant yn cario arfau gan nad oeddent yn teimlo'n ddiogel, ac yn Werrington roedd nifer cynyddol o fechgyn yn hunanynysu oherwydd pryderon ynglŷn â'u diogelwch.

Roedd IMB Cookham yn cysylltu lefel y trais yn benodol â rhwystredigaeth ynglŷn ag anghysondeb y rheolwaith. Roedd y Bwrdd yn beirniadu gorddibyniaeth y carchar ar gyfarwyddiadau cadw ar wahân, a oedd yn wrthgynhyrchiol o ran annog perthnasoedd cadarnhaol rhwng bechgyn ac yn achosi i fechgyn deimlo'n anniogel a disgwyl trais. Ar adeg benodol yn ystod blwyddyn adrodd 2022-23, roedd tua 600 o gyfarwyddiadau cadw ar wahân yn Cookham Wood, er mai tua 80 o fechgyn oedd y boblogaeth ar gyfartaledd. Gallai rhai bechgyn fod â chynifer â 25 o gyfarwyddiadau cadw ar wahân eu hunain.

Er bod IMB Feltham yn croesawu'r gostyngiad mewn ymosodiadau o ddiwedd yr haf ymlaen, roedd yn parhau'n bryderus ynglŷn ag amlder digwyddiadau difrifol yn cynnwys grwpiau mwy o fechgyn.

### Roedd lefelau uchel o hunan-niweidio ymhlith merched ifanc bregus

Roedd hunan-niweidio yn fater amlwg iawn yn Wetherby, yn rhannol gan mai dyma'r unig sefydliad troseddwyr ifanc lle'r oedd merched ifanc yn cael eu cadw. Roedd merched yn hunan-niweidio dro ar ôl tro, ac roedd staff yn gorfod defnyddio grym yn aml mewn ymdrech i'w cadw'n ddiogel. Mynegodd y Bwrdd bryder unwaith eto nad oedd Wetherby yn lle addas i ddiwallu anghenion hynod gymhleth y merched hyn a oedd yn achosi her fawr iawn oherwydd eu hymddygiad anwadal.

## 2.2. Triniaeth deg a dyngarol

### Roedd gwaith cynnal a chadw wedi'i ohirio yn golygu bod rhai plant yn byw mewn amodau gwael

Roedd llety yn ddarlun cymysg. Er ei fod yn llai o broblem at ei gilydd nag yn yr ystad oedolion, roedd sefydliadau troseddwyr ifanc yn profi problemau tebyg yn ymwneud â gwaith cynnal a chadw wedi'i ohirio.

Am y rhan fwyaf o 2023, roedd Wetherby yn nodi amodau gwael yn yr adenydd ar gyfer carcharorion newydd a bechgyn ar statws cyfyngedig, â llwydni yn y cawodydd a'r ystafelloedd mewn cyflwr gwael. Yn Cookham Wood, roedd oedi â gwaith cynnal a chadw'n golygu bod un adain wedi'i chau am fisoedd, ac ni allai'r uned ailsefydlu dderbyn mwy na hanner nifer y bechgyn y cynlluniwyd hi ar eu cyfer. Yn Feltham, nid

oedd y prosiect toi a oedd wedi'i drefnu ar gyfer Gorffennaf 2023 wedi cael ei gwblhau ac roedd problemau mawr â phibellau'n gollwng.

**Roedd y perthnasoedd rhwng staff a phlant yn amrywio ar draws y sefydliadau troseddwyr ifanc**

Roedd y Byrddau'n dal i roi pwyslais ar bwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a phlant er mwyn sicrhau llesiant plant a'u hadsefydlu. Yn uned pobl ifanc y Parc, lle'r oedd perthnasoedd yn gyson dda, a blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddull gweithredu a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn, adroddodd y Bwrdd am amgylchedd llawer mwy sefydlog a chynhyrchiol nag a welwyd mewn sefydliadau troseddwyr ifanc eraill. Roedd Byrddau Wetherby a Feltham hefyd yn adrodd yn fwy cadarnhaol. Roedd IMB Feltham yn tynnu sylw penodol at y gydberthynas â lefelau staffio, gan fod perthnasoedd rhwng staff a bechgyn yn gwaethygu pan oedd staff wedi'u hymestyn i'r eithaf ac yn gwella pan oedd lefelau staffio'n cynyddu.

Er hyn, roedd IMB Werrington yn disgrifio diffyg cyfathrebu cyffredinol a diffyg perthnasoedd ystyrlon rhwng staff a bechgyn, ac roedd IMB Cookham Wood yn nodi, er bod y staff yn awyddus i ffurfio perthnasoedd cryf â'r bechgyn yn eu gofal, bod prinder staff a llwyth gwaith trwm yn gwneud hyn yn anodd iawn. Dywedodd Byrddau Werrington a Cookham Wood eu bod wedi gweld staff yn siarad â bechgyn drwy ddrysau wedi'u cloi; yn Cookham Wood, roedd hyn oherwydd diffyg lefelau staffio digonol i ddatgloi drysau.

Nid oedd Cynlluniau Cefnogaeth yn y Ddalfa (CuSP) yn gyffredin yn unrhyw sefydliad troseddwyr ifanc yn Lloegr, gan eu bod wedi'u cyfyngu i'r rhai mwyaf bregus. Teimlai'r Byrddau fod hyn yn gwastraffu cyfleoedd i greu perthnasoedd cryfach yn seiliedig ar fwy o ymddiriedaeth rhwng staff a phlant. Yn yr un modd, roedd y Bwrdd yn uned pobl ifanc y Parc yn nodi bod sesiynau CuSP yn cael eu blaenoriaethu, a bod hynny mae'n debyg yn cyfrannu tuag at y perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a phlant.

## 2.3 Iechyd a lles

**Roedd gwasanaethau gofal iechyd corfforol a meddyliol yn gadarnhaol ond roedd yn anodd cael mynediad atynt**

Yn gyffredinol roedd y Byrddau'n adrodd yn gadarnhaol am wasanaethau gofal iechyd corfforol a meddyliol, ac yn credu eu bod cystal os nad yn well na'r hyn y gellid ei ddisgwyl ar gyfer plant yn y gymuned. Er hyn, mynegwyd pryder gan Fyrddau a oedd yn monitro sefydliadau troseddwyr ifanc yn Lloegr nad oedd staff yn gallu cael mynediad at fechgyn bob amser ar gyfer ymyriadau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Roedd hyn gan amlaf oherwydd prinder swyddogion hebrwng neu ddiffyg ystafelloedd addas, a oedd yn achosi rhwystredigaeth i'r bechgyn ac yn lladd eu hysbryd.

**Roedd diffygion mewn gofal lefel uwch i blant ag anghenion iechyd meddwl cymhleth**

Roedd pob Bwrdd yn cydnabod bod lefel anghymesur o uchel o anghenion iechyd meddwl a thrawma mewn sefydliadau troseddwyr ifanc o gymharu â phlant yn y

gymuned. Mewn rhai sefydliadau troseddwyr ifanc roedd nifer y plant ag anghenion iechyd meddwl yn dal i godi.

Roedd ar lawer o blant angen cymorth ychwanegol nad oedd bob amser yn cael ei ddarparu. Roedd IMB Feltham yn bryderus ynglŷn â defnyddio'r uned cymorth ychwanegol fel adnodd cenedlaethol, a oedd yn derbyn plant o sefydliadau eraill heb ymgynghori'n ddigonol ymlaen llaw, a heb ystyried sut y byddai plant yn yr uned yn rhyngweithio â'i gilydd. Caeodd yr uned yn 2023 oherwydd difrod a achoswyd gan blant. Nid oedd gan unedau cymorth ychwanegol eraill yn Wetherby a Werrington bwrpas clir: canfu IMB Wetherby fod uned Keppel (sy'n darparu cymorth ychwanegol i blant â nodweddion penodol sy'n eu gwneud yn agored i niwed) wedi profi pwysau 'na welwyd ei debyg o'r blaen'. Roedd yr unedau eraill a oedd yn darparu cymorth ychwanegol hefyd yn cael anhawster i ailintegreiddio plant yn ôl i reolwaith normal. Yn Werrington nid oedd pwrpas uned Wade yn glir. Yn Cookham Wood, roedd uned gofal dydd Phoenix ar gyfer bechgyn ag anghenion cymhleth yn cael canlyniadau cadarnhaol, ond roedd yn cael ei chau ar fyr rybudd yn aml oherwydd prinder staff.

**Roedd plant yn treulio gormod o amser yn eu hystafelloedd â rheolwaith gwael**

Roedd amser o'r ystafell yn parhau'n destun pryder difrifol i Fyrddau. Er ei fod yn dal yn dda yn y Parc, a bod Feltham wedi gweld gwelliannau sylweddol tua diwedd 2023 ynghyd â chynnydd yn y lefelau staffio, roedd Byrddau eraill yn dal i adrodd am berfformiad gwael.

Yn ôl IMB Cookham Wood, er gwaethaf gwelliant byr yn ystod 2023, roedd y rheolwaith at ei gilydd wedi gwaethygu ers y flwyddyn adrodd flaenorol ac roedd bellach yn 'annynol' i lawer o fechgyn. Er bod Wetherby a Werrington wedi adrodd am welliannau, roedd plant a phobl ifanc yn dal i dderbyn rhy ychydig o bell ffordd o amser allan o'r ystafell, yn enwedig ar benwythnosau.

Cyfeiriodd y Byrddau a oedd yn monitro mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn Lloegr at nifer uchel y plant a'r bobl ifanc a oedd yn cael eu cadw ar wahân, gan gynnwys y rhai a oedd yn dewis hunanwahanu oherwydd pryder am eu diogelwch. Roedd IMB Cookham Wood yn nodi pryder difrifol mai ychydig iawn o oriau allan o'u hystafelloedd oedd ar gael i fechgyn wedi'u gwahanu, a oedd yn aml yn cael llai na dwyawr y diwrnod.

## 2.4 Addysg a hyfforddiant

**Roedd addysg yn annigonol, yn bennaf oherwydd prinder athrawon**

Roedd addysg yn annigonol ar draws yr ystad sefydliadau troseddwyr ifanc ac roedd plant yn dal i dderbyn llai o oriau a llai o ddewis na phlant yn y gymuned. Adroddodd IMB Wetherby fod y ddarpariaeth yn dal yn wael oherwydd bod y ddau ddosbarth wedi cael eu canslo a'r rheolwaith wedi cael ei gyfyngu. Yn Cookham Wood, roedd recriwtio athrawon yn parhau'n broblem, ac roedd prinder swyddogion yn arwain at fethiant i hebrwng plant i addysg, ac o addysg, neu i fonitro diogelwch coridorau addysg. Roedd hyn yn arwain at ddiffyg o ran swm ac ansawdd addysg. Roedd darparu addysg yn y Parc yn anodd am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ar ôl newid darparwr, ac o ganlyniad i brinder athrawon, er bod pethau wedi gwella erbyn diwedd 2023.

Roedd hyfforddiant galwedigaethol yn cael derbyniad llawer gwell at ei gilydd. Roedd yn boblogaidd ymhlith plant a phobl ifanc pan oedd ar gael, er bod Byrddau Wetherby a Cookham Wood yn credu bod nifer y lleoedd yn llawer llai na'r galw.

## 2.5 Symud ymlaen tuag at drosglwyddo neu ryddhau

### Roedd plant ar remand yn gorfod aros yn hir am dreial ac roedd y gefnogaeth yn anghyson

Roedd y Byrddau a oedd yn monitro sefydliadau troseddwyr ifanc yn adrodd am y gyfran uchel o blant a oedd yn cael eu cadw ar remand (tua hanner poblogaeth y sefydliadau troseddwyr ifanc) a'r cyfnodau maith yr oedd y plant hyn yn ei dreulio yn y ddalfa. Er enghraifft, roedd un person ifanc a oedd bron yn 19 oed wedi treulio 15 mis ar remand yn Cookham Wood. Roedd IMB Feltham yn tynnu sylw at yr heriau penodol roedd y bobl ifanc hyn yn eu hwynebu ar ôl troi'n 18 oed, pan oedd cefnogaeth eu Tîm Troseddwyr Ifanc wedi dod i ben, a hwythau'n methu â chael cefnogaeth gan y Gwasanaeth Prawf gan nad oeddent wedi cael eu dedfrydu eto. Ni chafodd y bwlch hwn yn y ddarpariaeth ei gywiro tan ddechrau 2024.

### Roedd diffygion wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau yn arwain at drefniadau llety munud olaf

Dywedodd Byrddau Monitro Annibynnol Cookham Wood, Feltham a Wetherby nad oedd trefniadau llety rhai plant yn cael eu cwblhau tan ychydig cyn iddynt gael eu rhyddhau, gan achosi llawer o ansicrwydd a gofid. Yn Cookham Wood a Wetherby, gallai bechgyn na allent fyw gyda'u rhieni ar ôl cael eu rhyddhau aros tan y diwrnod cyn iddynt gael eu rhyddhau cyn derbyn cyfeiriad wedi'i gadarnhau. Roedd hyn yn golygu ei bod yn amhosibl trefnu cefnogaeth arall (er enghraifft lleoliadau coleg neu waith).

## 3. Lleoliadau cadw mewnfudwyr

**Y prif ganfyddiadau**

- Cynyddodd nifer y bobl a oedd yn dod i'r ystad cadw mewnfudwyr drwy gydol y flwyddyn, gan arwain at gynnydd mewn troseddwyr sy'n wladolion tramor wedi treulio amser.
- Roedd pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo yn cael eu cadw am gyfnodau hir heb unrhyw argoel realistig y byddent yn cael eu symud.
- Roedd gormod o bobl yn dal i gael eu cadw dan glo, rhai am fisoedd lawer, ar ôl i ryddhau neu fechnïaeth gael ei awdurdodi.
- Roedd pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo yn cael eu cadw mewn lleoedd amhriodol – megis mannau aros a reolir, cerbydau hebrwng a gorsafoedd yr heddlu – am ormod o amser, yn rhannol oherwydd prinder staff yn Llu'r Ffiniau a phellter meysydd awyr a ddefnyddid ar gyfer hediadau symud.
- Roedd yn gyffredin i bobl a oedd yn cael eu cadw mewn cyfleusterau dal tymor byr gael eu cadw am fwy na'r terfyn amser statudol o 24 awr, ac mae hyn wedi cynyddu er 2022.
- Roedd pobl fregus yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle'r oedd risg o niwed drwy gael eu cadw dan glo. Yn gyffredinol, roedd y prosesau a fwriadwyd er mwyn atal pobl fregus rhag cael eu cadw dan glo, a'u diogelu tra oeddent yn cael eu cadw dan glo, yn aneffeithiol.
- Er bod lleoliadau cadw mewnfudwyr yn ddiogel at ei gilydd, roedd digwyddiadau difrifol, anhrefn, trais a thorri rheolau diogelwch ar lefel uchel; cynyddodd y defnydd o wahanu; a chynyddodd nifer y bobl yr oedd risg y byddent yn diweddu eu hunain neu'n niweidio eu hunain tra'n cael eu cadw dan glo.
- Nid oedd anghenion sylfaenol pobl – megis bwyd, matresi a meddyginiaeth tra dan glo, a mynediad buan at doiledau ar hediadau siarter – yn cael eu diwallu bob amser.
- Roedd effaith andwyol ar iechyd a lles pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo gan nad oeddent yn gallu cael mynediad buan at apwyntiadau ysbyty a meddyginiaeth ar bresgripsiwn.
- Nid oedd cyfieithwyr a gwasanaethau cyfieithu, sy'n hanfodol er mwyn i bobl sy'n cael eu cadw dan glo allu deall y broses fewnfudo, yn cael eu defnyddio na'u cynnig yn gyson mewn canolfannau symud mewnfudwyr, cyfleusterau dal tymor byr, nac ar hediadau siarter.
- Roedd diffyg cyfathrebu ac ymgysylltu gan y Swyddfa Gartref ynglŷn â sut roedd eu hachosion mewnfudo yn dod yn eu blaenau yn achosi rhwystredigaeth a gofid i bobl sy'n cael eu cadw dan glo.

### Newidiadau yn y boblogaeth

Roedd nifer y bobl mewn canolfannau cadw mewnfudwyr 54% yn uwch ar 31 Rhagfyr 2023 nag ar yr un dyddiad yn 2022.[12] Ym mis Gorffennaf, roedd cyfanswm poblogaeth Yarl's Wood yn 85% o gapasiti gweithredol y ganolfan, ac yn Brook House roedd yn 75%. Un ffactor a oedd yn cyfrannu'n sylweddol at hyn oedd y cynnydd yng nghyfran y troseddwyr sy'n wladolion tramor wedi treulio amser

(TSFNO) a ryddhawyd o garchardai i ganolfannau symud mewnfudwyr fel rhan o'r 'Ymgyrch Diogelu'.[13]

Wrth i boblogaethau gynyddu, roedd staff a gwasanaethau a oedd dan bwysau yn barod yn cael mwy o anhawster i hwyluso rheolwaith, cadw cyfleusterau ar agor, darparu cymorth gofal iechyd a sicrhau cynnydd mewn achosion.

Gan nad oedd terfyn amser statudol ar gyfer cadw mewnfudwyr, gwelodd y Byrddau hefyd gynnydd cyffredinol yn yr amser yr oedd pobl yn ei dreulio dan glo mewn canolfannau symud mewnfudwyr o gymharu â 2022.[14] Erbyn haf 2023, hyd cyfartalog cyfnod cadw oedd 20 wythnos yn Gatwick ac roedd yr arhosiad hiraf yn 13 mis (57 wythnos). Yn ystod yr un cyfnod yn Yarl's Wood, roedd hyd cyfartalog cyfnod cadw dan glo yn 51 diwrnod. Roedd IMB Heathrow yn gyson yn gweld achosion o gadw dan glo am fwy na thri mis, ac yn dweud bod natur amhenodol cadw dan glo yn achos rhwystredigaeth a phryder yn gyson i bobl sy'n cael eu cadw dan glo.

## Lleoedd a hyd cyfnodau cadw dan glo

### Roedd pobl sy'n cael eu cadw dan glo mewn cyfleusterau dal tymor byr (STHF) yn aml yn cael eu cadw am fwy o amser na'r terfyn amser statudol

Y terfyn amser statudol ar gyfer cadw mewn STHF yw 24 awr, ond gallai'r Ysgrifennydd Gwladol awdurdodi ymestyn y cyfnod hwn.[15] Er hyn, drwy gydol 2023, canfu'r Byrddau fod pobl sy'n cael eu cadw dan glo mewn STHF yn aml yn cael eu cadw am fwy na 24 awr.

Canfu Bwrdd Monitro Annibynnol STHF Gogledd-orllewin a Chanolbarth Lloegr fod cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn cael eu cadw dan glo am gyfnodau a oedd yn fwy na 24 awr ym Meysydd Awyr Manceinion a Birmingham. Roedd hyn yn cynnwys dau berson dan 18 oed a gadwyd am fwy na 50 awr ym Maes Awyr Manceinion nes byddai llety wedi'i ganfod iddo. Yn yr un modd, canfu Bwrdd Monitro Annibynnol STHF De a Dwyrain Lloegr fod nifer y bobl a oedd yn cael eu cadw dan glo am hyd at a thros 48 awr mewn ystafelloedd cadw meysydd awyr wedi cynyddu.

Canfu'r Byrddau yn gyson fod oedi maith o ganlyniad i weithdrefnau prosesu a phroblemau gyda Clearsprings (darparwr y Llywodraeth sy'n gyfrifol am drefnu trosglwyddiadau rhwng cyfleusterau cadw a llety lloches) yn achosi i geiswyr lloches gael eu cadw mewn ystafelloedd cadw am gyfnodau maith yn aros i gael eu casglu a'u trosglwyddo. Roedd y Byrddau'n cwestiynu'r Swyddfa Gartref ynglŷn â phrosesau gwaith achos a disgwyliadau contractau ar gyfer Clearsprings, o ystyried bod yr oedi cyson yma wedi arwain at fynd dros y terfyn amser o 24 awr.

### Roedd pobl yn dal i gael eu cadw dan glo mewn canolfannau symud mewnfudwyr (IRC) hyd yn oed ar ôl awdurdodi eu rhyddhau

Drwy gydol 2023, roedd gormod o bobl yn dal i gael eu cadw dan glo ar draws yr ystad IRC ar ôl awdurdodi eu rhyddhau neu fechnïaeth, rhai am fisoedd lawer. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i oedi sylweddol cyn sicrhau neu gymeradwyo llety.

Canfu Byrddau Yarl's Wood a Heathrow fod rhyddhau yn cael ei ddal yn ôl yn rheolaidd oherwydd nad oedd y gwiriadau cyfeiriad angenrheidiol yn cael eu gwneud gan y Gwasanaeth Prawf, neu oherwydd nad oedd llety addas ar gael. Cafodd un dyn ei gadw yn IRC Brook House am saith mis arall ar ôl iddo gael mechnïaeth, gan fod chwe chyfeiriad mechnïaeth a ddarparwyd ganddo wedi cael eu gwrthod heb unrhyw eglurhad pam. Mewn un IRC, cafodd menyw ag anghenion cymhleth ei chadw dan glo am saith mis ar ôl awdurdodi ei rhyddhau tra'n aros am gefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd hyn hefyd yn wir am bobl yn cael eu cadw dan glo yr oedd y Swyddfa Gartref yn cytuno eu bod yn fregus. Mewn un IRC, roedd dyn wedi cael ei gadw am 16 wythnos arall ar ôl cael ei gategoreiddio fel 'oedolyn mewn perygl', gan nad oedd llety wedi'i gymeradwyo wedi'i sicrhau ar ei gyfer. Roedd hyn er bod adroddiad Rheol 35 (lle'r oedd meddyg IRC wedi dweud wrth y Swyddfa Gartref ei fod yn bryderus amdano oherwydd ei fod yn agored i niwed) wedi cael ei gyflwyno, a bod y Swyddfa Gartref wedi cydnabod 32 wythnos cyn hynny y byddai dal i'w gadw dan glo yn cael effaith andwyol ar ei iechyd.

Roedd yr oedi yma, a'r amser ychwanegol a dreuliwyd dan glo yn ddiangen o ganlyniad i hynny, yn cael effaith negyddol ar lesiant pobl sy'n cael eu cadw dan glo. Canfu IMB Gatwick fod yr oedi yma'n arwain at ofid mawr ac ymdrechion i hunan-niweidio. Yn Brook House, roedd dyn rhwystredig wedi dringo ar netin yr adain am bum awr mewn protest. Nid oedd y Swyddfa Gartref yn gallu darparu data i'r Byrddau Monitro Annibynnol ynglŷn â nifer y bobl a oedd wedi cael eu heffeithio gan y problemau hyn. Dywedodd staff mewn un IRC wrth yr IMB lleol fod nifer y bobl sy'n cael eu cadw dan glo tra'n aros am lety mechnïaeth wedi cyrraedd 'pwynt tyngedfennol'.

**Roedd pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo yn cael eu cadw mewn lleoedd amhriodol am ormod o amser**

Drwy gydol y flwyddyn, canfu'r Byrddau fod gormod o bobl a oedd yn cael eu cadw dan glo yn cael eu cadw mewn lleoliadau amhriodol am ormod o amser, er enghraifft mannau aros a reolir, cerbydau hebrwng a gorsafoedd yr heddlu.

Canfu'r Byrddau a oedd yn monitro mewn STHF fod llawer o bobl, gan gynnwys rhai dan 18 oed, am resymau amrywiol, gan gynnwys nifer annigonol o staff Llu'r Ffiniau, yn cael eu cadw mewn mannau aros a reolir (CWA) am fwy na dwy awr. Mae mannau aros a reolir fel arfer yn fannau agored â seddi yn ymyl yr ardal rheoli pasbortau.[16] Nid oedd y rhai a oedd yn cael eu cadw mewn mannau aros a reolir yn gallu cael mynediad at y cyfleusterau ychwanegol a oedd ar gael mewn ystafelloedd cadw, ac roedd y diffyg preifatrwydd o gael eu cadw mewn man cyhoeddus yn effeithio ar urddas pobl sy'n cael eu cadw dan glo.

Canfu'r Byrddau a oedd yn monitro yn yr ystad cadw mewnfudwyr fod pobl sy'n cael eu cadw dan glo, gan gynnwys unigolion bregus, weithiau'n cael eu trosglwyddo o STHF i un o orsafoedd yr heddlu i aros dros nos. Nododd y Byrddau na ddylid defnyddio gorsafoedd yr heddlu i gadw pobl dan bwerau mewnfudo oni bai fod dim lleoliad arall ar gael, ac y dylai hynny fod am y cyfnod byrraf posibl. Canfu IMB Gogledd-ddwyrain Canolbarth Lloegr, Swydd Efrog a Humber fod unigolyn wedi cael ei gadw mewn gorsaf heddlu am bron i dri diwrnod cyn cael ei symud, yn hytrach na

chael ei drosglwyddo i STHF preswyl. Roedd data a ddarparwyd i'r IMB yn dangos bod saith achos o'r fath o ddefnyddio gorsafoedd heddlu rhwng Chwefror a Medi 2023.

Cyn hediadau siarter, roedd pobl yn aml yn gorfod bod mewn cerbydau am gyfnodau hir. Roedd hyn yn rhannol oherwydd y pellter yr oedd yn ofynnol i bobl ei deithio i feysydd awyr, yn ystod y nos bob amser. Canfu aelodau'r Tîm Monitro Hediadau Siarter (CFMT) ei bod yn gyffredin i siwrneiau gymryd dros bum awr; roedd rhai'n gorfod aros am dair awr arall ar ôl cyrraedd y maes awyr. Roedd yr CFMT wedi cyflwyno awgrymiadau i'r Swyddfa Gartref ynglŷn â sut i leihau cyfanswm yr oriau yr oedd pobl yn ei dreulio mewn cerbydau wedi'u parcio yn yr IRC.

## 3.1. Diogelwch

**Roedd pobl fregus mewn perygl o gael eu niweidio o ganlyniad i gadw mewnfudwyr dan glo**

Mae rhagdybiaeth glir yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref nad yw cadw dan glo yn briodol os yw unigolyn yn cael ei ystyried yn fregus, gan fod hyn yn ei roi 'mewn perygl' o gael ei niweidio. Gall oedolyn fod mewn perygl os yw'n dioddef o gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol difrifol, os yw wedi profi digwyddiad trawmatig (megis masnachu, artaith, neu drais rhywiol), os yw'n 70 oed neu hŷn, neu os yw wedi newid, neu os yw yn newid, o un rhywedd i un arall.[17]

O ganlyniad, ni ddylid cadw pobl fregus iawn dan glo oni bai fod ystyriaethau rheoli mewnfudwyr yn bwysicach na'r rhagdybiaeth o ryddhau o leoliad cadw.

Mae polisi 'Oedolion sydd mewn Perygl' y Swyddfa Gartref yn egluro, oherwydd mai am gyfnod byr y bwriadwyd i bobl gael eu cadw mewn ystafelloedd cadw mewn porthladdoedd, bod eu defnydd yn debygol o barhau'n amhriodol, ond y dylid adolygu hyn yn unol â risg yr unigolyn. Fodd bynnag, yn ôl canfyddiadau'r IMB roedd pobl fregus yn rhy aml o'r hanner yn cael eu cadw mewn STHF preswyl, a chynyddodd nifer y bobl fregus a oedd yn cael eu cadw mewn IRC. Drwy gydol 2023, mynegodd y Byrddau bryder ynglŷn â hyn yn gyson wrth y Swyddfa Gartref.

### *Roedd mecanweithiau i atal cadw pobl fregus yn methu*

Arweiniodd hyn hefyd at bryderon ynglŷn ag effeithiolrwydd mecanweithiau a fwriadwyd er mwyn atal pobl fregus rhag cael eu cadw dan glo, er enghraifft rôl y Porthor Cadw Dan Glo.[18]

Mae Byrddau sy'n monitro mewn IRC wedi adrodd am bryderon ynglŷn â methiant y Porthor Cadw Dan Glo i atal cadw pobl fregus iawn. Ym mis Ebrill, cwestiynodd y Byrddau y Swyddfa Gartref ynglŷn ag ansawdd gwaith sgrinio a gwblhawyd gan y Porthor Cadw Dan Glo. Dywedodd Byrddau a oedd yn monitro mewn tair IRC wahanol eu bod yn bryderus iawn ynglŷn â'r canlynol:

- Dyn â phroblemau iechyd meddwl a oedd wedi cael ei gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl cyn hyn, ond a gafodd ei gymeradwyo ar gyfer ei gadw dan glo gan y Porthor Cadw dan Glo. Cafodd ei gadw am fisoedd yn yr uned wahanu tra'n aros i gael ei drosglwyddo i uned seiciatrig, yn dilyn

penderfyniad nad oedd yn ddigon da i ddychwelyd i'r unedau rheolaidd. Mynegodd y Bwrdd bryder ar ôl sylwi nad oedd wedi ymolchi, ei bod yn edrych fel pe bai wedi colli pwysau a'i fod yn ymddangos yn ffwndrus.
- Roedd menyw drawsryweddol wedi'i chadw dan glo am 22 diwrnod er bod asesiad gan y Swyddfa Gartref ar ddechrau ei chyfnod dan glo wedi cadarnhau bod risg iddi gael niwed. Yn y diwedd cafodd ei throsglwyddo i'r ysbyty. Cwestiynodd y Bwrdd y penderfyniad gan y Porthor Cadw Dan Glo i ganiatáu ei chadw yn y lle cyntaf.
- Cafodd dyn ei gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn y diwedd yn dilyn misoedd o ddirywiad yn ei iechyd tra oedd yn cael ei gadw dan glo. Ar ôl cael ei gymeradwyo gan y Porthor Cadw Dan Glo, cadarnhaodd staff y Swyddfa gartref wedyn nad oedd yn addas i gael ei gadw dan glo.

Nid oedd gan ganolfannau symud mewnfudwyr gyfleusterau gofal iechyd priodol i ofalu am y bobl fregus hyn. Er bod y Byrddau wedi canfod bod staff yn ceisio rheoli'r rhai ag anghenion cymhleth, yn gyffredinol nid oedd ganddynt yr hyfforddiant na'r adnoddau i wneud hynny.

### *Roedd prosesau i ddiogelu pobl fregus ar ôl iddynt gael eu cadw dan glo hefyd yn aneffeithiol*

Mae proses Rheol 35 y Rheolau Canolfannau Cadw wedi'i dylunio er mwyn diogelu pobl yn cael eu cadw dan glo sy'n agored iawn i niwed oherwydd eu hiechyd, oherwydd risg o fwriad i ddiweddu eu hunain, neu oherwydd eu bod wedi cael eu harteithio.

Canfu'r Byrddau fod y broses Rheol 35 yn aneffeithiol at ei gilydd, gan nad oedd pobl fregus yn cael eu nodi yn ddigon buan, a'u bod yn aros yn rhy hir am asesiad ar ôl iddynt gael eu nodi. Yng nghanol 2023, adroddodd dau IMB fod rhaid aros dwy i dair wythnos cyn cael asesiad. Erbyn diwedd y flwyddyn, canfu tri IMB fod yr amser aros wedi cynyddu i fis. Adroddodd IMB Gatwick, a oedd yn monitro yng nghanolfannau symud mewnfudwyr Brook House a Tinsley House, nad oedd y contractwr gofal iechyd wedi cymryd camau priodol i wella amseroedd aros.

Ar ôl cwblhau asesiad Rheol 35, bydd y meddyg sy'n asesu yn adrodd am ei ganfyddiadau wrth y Swyddfa Gartref. Mae'n ofynnol i'r Swyddfa Gartref ymateb cyn pen dau ddiwrnod, gan gadarnhau canlyniad yr adolygiad o gadw'r unigolyn dan glo (gan gynnwys a fydd yr unigolyn yn cael ei ryddhau ynteu'n cael ei gadw dan glo am fwy o amser).[19] Er gwaetha'r amserlen glir hon, canfu'r Byrddau fod ymatebion yn cael eu dal yn ôl yn rheolaidd, ac ambell waith fod pobl yn aros dau fis cyn cael cadarnhad a oeddent yn cael eu hystyried yn rhy fregus i gael eu cadw dan glo.

### *Roedd prosesau i nodi bod rhywun yn fregus mewn STHF yn annigonol*

Roedd y Byrddau a oedd yn monitro mewn rhai Cyfleusterau Dal Tymor Byr Preswyl (RSTHF), lle gellir cadw pobl dan glo am hyd at saith niwrnod, yn bryderus oherwydd y diffyg preifatrwydd yn ystod cyfweliadau derbyn pan oedd natur agored i niwed a ffactorau risg yn cael eu nodi. Er enghraifft, mae Bwrdd Monitro Annibynnol RSTHF Swinderby wedi mynegi pryder yn gyson bod cyfweliadau derbyn yn cael eu cynnal mewn man derbyn agored sydd ddim ond wedi'i sgrinio'n rhannol oddi wrth bobl eraill sy'n cyrraedd. Mae'r sawl sy'n cael ei gyfweld yn sefyll ac mae'r aelod o'r staff

sy'n ei gyfweld y tu ôl i ffenestr neu ddrws bach. Roedd y Bwrdd yn bryderus, o ystyried natur sensitif llawer o'r cwestiynau, y gallai hyn effeithio ar barodrwydd unigolyn i ddatgelu gwybodaeth, ac o ganlyniad ar lwyddiant wrth nodi ffactorau risg, diogelwch a chamfanteisio. Er bod pobl newydd a oedd yn cyrraedd yn cael cynnig ystafell breifat o bosibl, yn ôl y Bwrdd nid ydynt yn debygol o ddeall na chael eu hysbysu ynglŷn â natur y cyfweliad a mantais preifatrwydd. O ganlyniad, roeddent yn galw am gynnal pob cyfweliad o'r fath yn breifat fel mater o drefn.

### *Roedd prosesau symud ar gyfer pobl fregus yn achosi pryder*

Roedd y gwaith o symud pobl a oedd wedi'u nodi fel rhai bregus iawn yn cael ei fonitro gan yr CFMT. Nid yw'r ffaith fod rhywun yn fregus yn golygu na ellir ei symud a dylid creu cynlluniau gofal ar gyfer pobl yr ystyrir eu bod mewn perygl.

Roedd yr CFMT yn bryderus ynglŷn â symud un unigolyn a oedd yn cael ei gasglu'n uniongyrchol o uned seiciatrig ddiogel. Gofynnodd yr CFMT am wybodaeth ynglŷn â sut y cyflwynwyd y cyfarwyddiadau symud, yr amser casglu, faint o ymgysylltu oedd rhwng yr hebryngwyr a'r unigolyn yn ystod y daith i'r maes awyr, ac am faint y bu'n rhaid iddo aros cyn mynd ar yr awyren. Digwyddodd y symud yn ystod misoedd yr haf ac mae'r CFMT yn dal i geisio cael sicrwydd ynglŷn â phryderon a godwyd ynghylch gallu'r unigolyn hynod fregus hwn i ddeall beth oedd yn digwydd iddo.

### **Roedd nifer yr achosion o hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith unigolion a oedd yn cael eu cadw dan glo wedi cynyddu**

Roedd y Byrddau yn monitro'r gefnogaeth a ddarperid i bobl yn cael eu cadw dan glo a oedd wedi'u nodi fel rhai yr oedd risg iddynt geisio diweddu eu hunain neu niweidio eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a oedd yn cael eu rheoli drwy gynllun asesu, gofal dan glo a gwaith tîm (ACDT), wedi'i gynllunio er mwyn lleihau trallod unigolion a oedd yn cael eu cadw dan glo a lleihau'r risg o hunan-niweidio neu hunanladdiad.

Canfu IMB Gatwick fod lefel gyffredinol y digwyddiadau hunan-niweidio wedi cynyddu drwy gydol y flwyddyn. Canfu'r Bwrdd hefyd fod y ganran o'r boblogaeth a oedd yn cael ei rhoi ar ACDT wedi cynyddu yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn. Erbyn mis Hydref, adroddodd y Bwrdd fod gweithredoedd hunan-niweidio yn digwydd yn fwy aml, a bod tua dwywaith cymaint o ddigwyddiadau nag ym mis Gorffennaf. Canfu IMB Yarl's Wood hefyd fod llawer o bobl a oedd yn cael eu cadw dan glo yn bygwth ceisio niweidio eu hunain a diweddu eu hunain, gan gynnwys defnyddio rhwymau, ac mai dim ond ymyriadau gan staff oedd yn eu hatal rhag niweidio eu hunain.

Drwy gydol 2023, roedd y Byrddau'n bryderus ynglŷn â nifer y 'digwyddiadau difrifol' yn cynnwys ymdrechion i hunan-niweidio.[20] Adroddodd IMB mewn canolfan symud mewnfudwyr a oedd yn cadw dynion am ddigwyddiad ar uchder pan oedd dyn wedi bygwth achosi niwed difrifol iddo'i hun â llafn miniog. Adroddodd IMB Heathrow am farwolaeth dyn a oedd yn cael ei gadw yn IRC Colnbrook, marwolaeth a oedd yn ôl pob golwg wedi'i hachosi gan yr unigolyn ei hun (SID); dau ddiwrnod yn ddiweddarach ceisiodd nifer o ddynion niweidio eu hunain â rhwymau a cheisiodd rhai ohonynt fynd ar y netin. Roedd rhagor o ddigwyddiadau drwy gydol yr haf, a oedd yn cynnwys dynion yn neidio ar y netin â gwydr wedi torri, yn bygwth llyncu

llafnau raseli a batris, a dyn a gaeodd ei hun yn ei ystafell a'i rhoi ar dân. Ym mis Tachwedd, roedd achos tebygol o SID yn IRC Brook House.

Mae marwolaethau mewn lleoliadau cadw mewnfudwyr wedi bod yn anghyffredin yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd Byrddau a oedd yn monitro canolfannau symud mewnfudwyr yn bryderus iawn bod dau achos tebygol o SID wedi digwydd mewn blwyddyn ar draws yr ystad.

**Roedd y defnydd o wahanu wedi cynyddu**

Mae'r Rheolau Canolfannau Cadw yn nodi y gellir atal person sy'n cael ei gadw dan glo rhag cymdeithasu, am ddim mwy na 14 diwrnod, os oes angen hynny er mwyn diogelu pobl eraill neu er ei ddiogelwch ei hun (Rheol 40).[21] Ni ellir cosbi unigolyn drwy ei gadw'n gaeth mewn uned gofal a gwahanu, ond gellir gorchymyn hynny os yw ymddygiad unigolyn sy'n cael ei gadw dan glo yn afreolus neu'n dreisgar (Rheol 42).[22]

Canfu Byrddau sy'n monitro mewn IRC fod nifer uchel o achosion o gadw'n gaeth mewn unedau gofal a gwahanu yn ystod 2023. Yn IRC Brook House, rhwng Mehefin a Hydref nid oedd ond un cyfnod o dri diwrnod pan nad oedd unrhyw bobl a oedd yn cael eu cadw dan glo wedi'u gwahanu dan Reol 40. Canfu IMB Heathrow fod yr uned gofal a gwahanu yn aml yn llawn, ac erbyn mis Hydref bu'n rhaid defnyddio uned yn Colnbrook gan nad oedd digon o le.

Roedd y Byrddau'n cwestiynu a ellid cyfiawnhau gwahanu mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, roedd IMB Brook House yn bryderus bod atal rhag cymdeithasu yn cael ei ddefnyddio mewn achosion lle'r oedd dynion yn cael eu cadw dan glo yn gwrthod rhannu ystafelloedd, gan fod y cynnydd yn y boblogaeth yn golygu bod angen rhannu celloedd. Yn Yarl's Wood, canfu'r IMB fod nifer o bobl fregus yn treulio cyfnodau wedi'u cadw'n gaeth yn yr uned gofal a gwahanu. Canfu un IMB fod gwahanu wedi'i ddefnyddio am dipyn mwy na'r uchafswm o 14 diwrnod, er mwyn rheoli gofal un person bregus iawn am 39 diwrnod tra oedd yn aros i gael ei drosglwyddo i ysbyty.[23]

**Roedd digwyddiadau difrifol, anhrefn, trais a thorri rheolau diogelwch wedi cynyddu**

Er bod lefelau trais yn isel at ei gilydd ym mhob IRC, yn ystod 2023, bu achosion o anhrefn, trais, neu dorri rheolau diogelwch ym mhob IRC dynion yn Lloegr.

Yn Yarl's Wood, bu pedwar digwyddiad difrifol rhwng Ebrill a Gorffennaf 2023, a oedd yn cynnwys dynion yn cael eu cadw dan glo yn dringo ar y to a'r ffens, a thri dyn ar ddeg yn dianc. Ym mis Hydref, adroddodd yr IMB am ddigwyddiad nad oedd yn un difrifol, a ddatblygodd yn ôl yr hyn y mae'r IMB yn ei ddeall yn dilyn protest heddychlon mewn ymateb i ganslo ar fyr rybudd un o gymorthfeydd y Tîm Ymgysylltu Dan Glo (DET), a drefnwyd er mwyn darparu cyngor am faterion cyfreithiol a gwaith achos. Teimlai'r Bwrdd y gellid bod wedi atal hyn yn gyfan gwbl pe bai'r staff wedi cyfathrebu'n well â phobl a oedd yn cael eu cadw dan glo. Adroddodd Byrddau Heathrow a Gatwick hefyd fod oedi wrth symud achosion yn eu blaenau wedi cyfrannu tuag at rai digwyddiadau difrifol a phrotestiadau yn yr un cyfnod.

Adroddodd IMB Heathrow, yn syth ar ôl marwolaeth yr oedd yn ymddangos ei bod wedi'i hachosi gan yr unigolyn ei hun, fod cynnydd mewn lefelau straen a gorbryder, a oedd yn uchel yn barod, wedi arwain at gyfnod o ddiffyg disgyblaeth ar raddfa fawr. Ysgrifennodd Cadeirydd Cenedlaethol IMB at y Swyddfa Gartref i gyfleu sylwadau a phryderon y Bwrdd ynglŷn â thriniaeth a diogelwch pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y Bwrdd yn cwestiynu'r penderfyniad i beidio â darparu meddyginiaeth fel arfer oni bai ei bod yn hollbwysig. Mewn un uned, penderfynwyd na fyddid yn darparu bwyd na dŵr nes byddai pob person a oedd yn cael ei gadw dan glo wedi'i gloi yn ei ystafell. Aeth tua saith awr heibio cyn i ddim byd gael ei ddarparu, ac effeithiodd hyn ar bawb yn yr uned, gan gynnwys y rhai a oedd wedi cydymffurfio o'r dechrau.

Adroddodd IMB Heathrow fod cynnydd sylweddol mewn ymosodiadau ar bobl a oedd yn cael eu cadw dan glo ac ar staff, a bod triniaeth mewn ysbyty wedi bod yn ofynnol mewn rhai achosion. Roedd pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo yn nghanolfannau symud mewnfudwyr Harmondsworth a Colnbrook yn wynebu cyfyngiadau symud mewn unedau preswyl yn dilyn hyn, ac roedd hynny yn ei dro'n codi lefelau rhwystredigaeth. Adroddodd y Bwrdd fod gan ddioddefwyr ymosodiadau ormod o ofn i ddweud pwy oedd wedi ymosod arnynt. Yn dilyn pryderon ynglŷn â diogelwch pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo yn Harmondsworth a Colnbrook ysgrifennodd IMB at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cadw Dan Glo ym mis Hydref 2023. Dywedodd y Bwrdd fod lefelau staffio annigonol yn cyfrannu tuag at ddarlun cynyddol anniogel yn Heathrow.

**Roedd y defnydd o rym yn amrywio**

Roedd lefelau defnyddio grym a sut y cofnodid y digwyddiadau hyn yn amrywio ar draws y canolfannau symud mewnfudwyr. Er enghraifft, canfu IMB Yarl's Wood fod tua phum digwyddiad y mis ar gyfartaledd yn ystod ail chwarter y flwyddyn. Mewn cymhariaeth, adroddodd IMB Gatwick fod 81 digwyddiad defnyddio grym wedi bod yn ystod yr un cyfnod yn Brook House, sef 27 achos y mis ar gyfartaledd. O ystyried bod gan y ddwy ganolfan gapasiti gweithredol tebyg, ond poblogaethau gwahanol, roedd yr amrywiad mewn niferoedd yn codi pryder ynglŷn â chysondeb wrth ddefnyddio grym yn erbyn pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo, ac a oedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n briodol.

Roedd IMB Gatwick yn cwestiynu'r cynnydd mewn trais a defnyddio grym yn Brook House. Mewn ymateb, awgrymodd staff y Swyddfa Gartref y gallai hyn fod oherwydd cynnydd yn nifer y dynion o Albania a oedd yn cael eu cadw dan glo yn y ganolfan. Oherwydd bod yr ymateb hwn yn peri pryder iddo, dadansoddodd y Bwrdd ddata defnyddio grym. Nid oedd tystiolaeth bod grym yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio ar ddynion o Albania, nac ychwaith eu bod yn fwy tebygol o fod yn dreisgar. Roedd y Bwrdd yn cwestiynu canfyddiad y staff o'r grŵp hwn a dealltwriaeth y rheolwyr o'r cynnydd.

Drwy gydol 2023, roedd yr CFMT yn cwestiynu a oedd cyfiawnhad dros ddefnyddio gwregysau ataliol am y canol (WRB) yn ystod hediadau siarter. Canfu aelodau'r CFMT fod cofnodion ynglŷn â defnyddio gwregysau o'r fath yn annibynadwy o ran y cyfnod o amser y caent eu defnyddio a lleoliad y gwregys. Roedd yr CFMT hefyd yn cwestiynu'r farn gyffredinol y dylai hebryngwyr ddal i ddefnyddio gwregysau ataliol

am y canol nes bod yr arwyddion gwregysau wedi eu diffodd, ac ar un achlysur roeddent yn bryderus bod gwregys ataliol am y canol wedi'i ddefnyddio am dros wyth awr.

## 3.2. Triniaeth deg a dyngarol

**Nid oedd hawliau sylfaenol pobl sy'n cael eu cadw dan glo yn cael eu bodloni bob amser mewn ystafelloedd cadw nac ar hediadau siarter**

Mae'r Byrddau'n disgwyl y bydd anghenion sylfaenol pobl sy'n cael eu cadw dan glo yn cael eu bodloni mewn ffordd sy'n parchu eu hurddas. Roedd y Byrddau'n bryderus ynglŷn â diffyg bwyd wedi'i gynhesu a threfniadau boddhaol ar gyfer cysgu mewn ystafelloedd cadw, a mynediad sydyn at doiledau ar hediadau siarter.

Ym mis Ionawr, adroddodd Byrddau STHF fod matresi wedi'u symud o'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd cadw, gan eu bod yn cael eu hystyried yn beryglus pe bai tân, ac nad oedd matresi eraill wedi'u gosod yn eu lle. Nid oedd yr STHF wedi cael digon o fatresi i fodloni'r galw erbyn diwedd 2023 ychwaith. Roedd hyn yn golygu bod nifer fawr o bobl a oedd yn cael eu cadw dros nos yn gorfod cysgu ar y llawr, neu ar gadeiriau plastig caled.

Ym mis Gorffennaf, adroddodd Byrddau STHF ar draws yr ystad fod Llu'r Ffiniau, er mwyn bodloni gofynion sy'n bodoli ers tro gan Awdurdodau Lleol, wedi rhoi'r gorau i ddarparu bwyd poeth yn y cyfleusterau roedden nhw'n eu rheoli (tua hanner y cyfleusterau dal tymor byr yn y DU). Am weddill 2023, dim ond diodydd poeth a byrbrydau oer oedd ar gael i bobl a oedd yn cael eu cadw dan glo mewn STHF a reolid gan Lu'r Ffiniau. Roedd y Byrddau'n credu bod y trefniadau hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar unrhyw un a oedd yn cael ei gadw am fwy nag ychydig oriau ac roedd y mater yn dal heb ei ddatrys erbyn diwedd 2023.

Mewn dau o bob tri o'r hediadau a arsylwyd gan yr CFMT, roedd symudiadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio awyrennau un eil a oedd yn orlawn. Ambell waith, gwelodd aelodau'r IMB a oedd yn monitro symudiadau bobl yn gorfod aros am awr ar ôl gofyn am gael eu hebrwng i'r toiled, oherwydd anawsterau'n gysylltiedig â symud o gwmpas awyrennau un eil.

## 3.3. Iechyd a lles

**Roedd diffyg mynediad buan at apwyntiadau ysbyty a meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn cael effaith andwyol ar iechyd pobl sy'n cael eu cadw dan glo**

Ar adegau, roedd prinder staff yn cael effaith negyddol ar iechyd a lles pobl sy'n cael eu cadw dan glo mewn IRC, gan na ellid hwyluso staff hebrwng ar gyfer ymweliadau angenrheidiol â'r ysbyty ar gyfer pobl sy'n cael eu cadw dan glo. Ar un achlysur, adroddodd y meddyg teulu wrth Fwrdd Monitro Annibynnol IRC Heathrow ei fod yn gorfod 'erfyn' ar ddarparwr contract y ganolfan i roi blaenoriaeth i hwyluso ymweliadau ysbyty. Mynegodd y Bwrdd ei bryder ynglŷn â'r effaith yr oedd lefelau staffio isel yn ei gael ar iechyd pobl sy'n cael eu cadw dan glo wrth uwch swyddogion y Swyddfa Gartref ym mis Hydref 2023.

Mewn un IRC, aethpwyd â dyn mewn poen difrifol i'r ysbyty yn dilyn anaf. Ar ôl cael ei ryddhau â chyfarwyddyd i ddychwelyd am sgan y diwrnod canlynol, collodd ddau apwyntiad gan nad oedd staff ar gael i'w hebrwng. Ni chafodd fynd i'r ysbyty cyn y trydydd diwrnod, ac erbyn hynny roedd y diagnosis mor ddifrifol fel bod angen tynnu un o'i organau. Er na fyddai apwyntiad cynharach wedi osgoi hyn, bu'n rhaid i'r dyn dreulio dau ddiwrnod mewn poen difrifol ac yn teimlo'n annifyr.

Mewn cyfleusterau dal tymor byr dibreswyl, mae polisi'r Swyddfa Gartref yn nodi bod yn rhaid cymryd pob meddyginiaeth, gan gynnwys meddyginiaeth ar bresgripsiwn, oddi ar bobl sy'n cael eu cadw dan glo. Nid yw Swyddogion Cystodaeth Dan Glo (DCO) wedi'u hawdurdodi i roi meddyginiaeth, hyd yn oed pan fydd ar berson sy'n cael ei gadw dan glo angen dos reolaidd ar adeg benodol. Nid oes gan y rhan fwyaf o'r cyfleusterau dal tymor byr ddarpariaeth benodol ar gyfer gofal iechyd. Yn y cyfleusterau hynny nad oes ganddynt ddarpariaeth gofal iechyd, os oes ar berson sy'n cael ei gadw dan glo angen ei feddyginiaeth, rhaid i'r staff gael mewnbwn meddygol yn gyntaf a chyngor drwy wasanaethau ffôn y GIG, parafeddygon neu gyfleusterau gwasanaethau brys eraill. Mae'r Byrddau wedi canfod bod y broses hon wedi golygu bod pobl sy'n cael eu cadw dan glo yn methu â chymryd eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn, ac yn wynebu perygl o ddirywiad meddygol.

Dechreuodd y Byrddau fynegi pryder ynglŷn â diffyg mynediad at feddyginiaeth ar bresgripsiwn i bobl sy'n cael eu cadw dan glo mor bell yn ôl â 2017, ond mae'r mater yn dal heb ei ddatrys. Roedd Byrddau yn dal i fynegi pryder wrth y Swyddfa Gartref yn 2023. Nododd y Byrddau nad oedd asesiad risg wedi'i wneud i weld faint o risg oedd yn cael ei hachosi gan y trefniant presennol, a allai arwain at ganlyniadau angheuol.

Ym mis Hydref, ysgrifennodd Cadeirydd Cenedlaethol IMB at Brif Swyddog Fferyllol Lloegr, i nodi amddifadu o feddyginiaeth ar bresgripsiwn fel mater yn ymwneud â diogelwch cleifion yng nghyswllt meddyginiaeth ar bresgripsiwn.

### 3.4. Paratoi ar gyfer dychwelyd neu ryddhau

**Roedd problemau wrth geisio symud achosion yn eu blaenau yn achosi rhwystredigaeth a thrallod**

Roedd cyfathrebu ac ymgysylltu annigonol gan staff y Swyddfa Gartref ynglŷn â sut roedd achosion mewnfudo pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo yn mynd yn eu blaenau yn arwain at rwystredigaeth a thrallod. Drwy gydol 2023, roedd pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo mewn IRC yn aml yn mynegi'r rhwystredigaeth hon wrth y Byrddau. Adroddodd IMB Gatwick fod y rhwystredigaeth hon wedi arwain at hunan-niweidio mewn rhai achosion ac wedi arwain at gyfnod o aflonyddwch yn Brook House.

Galwodd IMB Brook House am ailddechrau 'cymorthfeydd' ar adenydd gyda Thimau Ymgysylltu Dan Glo y Swyddfa Gartref er mwyn helpu pobl sy'n cael eu cadw dan glo i ddeall yn well sut mae eu hachos yn dod yn ei flaen. Er hyn, ni chynhaliwyd cymorthfeydd am y rhan fwyaf o 2023 oherwydd prinder staff. Adroddodd y Bwrdd fod staff DET fel pe bai arnynt ofn gweithio mewn unedau preswyl, ac ni wnaeth cymorthfeydd ailddechrau tan ddiwedd mis Tachwedd, gan gael eu cynnal ddwywaith yr wythnos am chwe wythnos olaf y flwyddyn.

Adroddodd yr IMB yn Heathrow hefyd bod prinder staff DET. Ym mis Gorffennaf, dim ond traean o'r swyddi DET oedd wedi eu llenwi ac erbyn mis Hydref roedd swyddogion yn gwrthod mynd i'r ganolfan oni bai eu bod mewn pâr, oherwydd pryder am ddiogelwch. Adroddodd y Bwrdd fod hyn yn achosi oedi difrifol cyn darparu gwybodaeth i bobl a oedd yn cael eu cadw dan glo, ag un dyn yn gwrthod bwyd am dros fis, a hynny mae'n debyg oherwydd bod y Swyddfa Gartref wedi trin ei achos yn wael.

Roedd signal ffôn symudol gwael yn Brook House, Derwentside ac Yarl's Wood hefyd yn golygu nad oedd pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo yn gallu cael mynediad dibynadwy at eu cyfreithwyr, a oedd wedi dod yn fwy hanfodol gan fod ymgyngoriadau cyfreithiol wyneb yn wyneb yn llai aml.

**Defnydd anghyson o gyfieithwyr a gwasanaethau cyfieithu**

Canfu'r Byrddau nad oedd cyfieithwyr a gwasanaethau cyfieithu yn cael eu defnyddio neu eu cynnig yn gyson mewn canolfannau symud mewnfudwyr, mewn cyfleusterau dal tymor byr, nac ar hediadau siarter.

Er enghraifft, canfu'r IMB a oedd yn monitro cyfleusterau dal tymor byr Llundain nad oedd gwasanaeth cyfieithydd ar gael am rannau sylweddol o'r flwyddyn a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n anghyson yn ystod cyfweliadau cynefino. Roedd diffyg cyfieithwyr ar draws cyfleusterau dal tymor byr yn golygu o bosibl nad oedd pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo wedi deall cwestiynau pwysig a ofynnid iddynt ac a fwriadwyd er mwyn nodi ffactorau risg a bregusrwydd.

Yn yr un modd, yn rhy aml o'r hanner ar hediadau siarter nid oedd digon o gyfieithwyr yn bresennol wrth gasglu unigolion o ganolfannau cadw. Roedd yr CFMT yn bryderus oherwydd y posibilrwydd nad oedd unigolion a oedd yn siarad iaith arall ar wahân i Saesneg fel iaith gyntaf wedi deall beth oedd yn digwydd, neu wedi gallu gofyn cwestiynau neu godi pryderon ynglŷn â'r broses symud. Nid oedd dealltwriaeth yn cael ei phrofi.

**Roedd rhannu gwybodaeth yn ddiffygiol a chofnodion yn anghyflawn**

Ym mis Ionawr, canfu IMB Gatwick fod cofnodion y Swyddfa Gartref, gan gynnwys gwybodaeth am euogfarnau a chanlyniadau gwrandawiadau apêl, yn anghyflawn ac wedi dyddio.

Sylwodd yr IMB a oedd yn monitro cadw ceiswyr lloches dan glo ar arfordir Caint nad oedd digon o wybodaeth yn cael ei darparu, a bod llawer o bobl yn teimlo'n ddryslyd ynglŷn â beth fyddai'n digwydd nesaf iddynt.

Adroddodd yr CFMT fod gwybodaeth am y Cynllun Hwyluso Dychwelyd (FRS), cynllun grant i bobl sydd wedi treulio dedfryd o garchar ac sy'n cydymffurfio ag amodau symud yn wirfoddol, yn cael ei phasio ymlaen yn rheolaidd i hebryngwyr.[24] Canfu'r IMB fod pobl a oedd wedi'u symud yn aml yn teimlo'n bryderus ynglŷn â'r FRS, ac yn gofyn cwestiynau na allai'r hebryngwyr eu hateb. Roedd llawer o'r cwynion a wnaethpwyd yn ymwneud â'r FRS, ac roedd yr CFMT yn teimlo y gellid

bod wedi gwneud mwy i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â phroses yr FRS i’r rhai a oedd yn cael eu symud.


# Atodiadau

## Atodiad 1: Ceisiadau

Cafodd dros 35,600 o geisiadau eu gwneud i'r Byrddau Monitro Annibynnol mewn carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc, ac yn yr ystad cadw mewnfudwyr (IDE) yn ystod 2023:[25]

- Cafodd **33,888** o geisiadau eu gwneud i'r Byrddau drwy ffurf ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb.
- Cafodd **1,728** o geisiadau eu gwneud drwy'r llinell geisiadau 0800, a ddaeth i ben ar 1 Awst.[26]

**Graff 1: Canran y rhaniad o geisiadau a wnaethpwyd ar draws lleoliadau cadw yn ôl y math o gategori[27]**




Roedd y nifer mwyaf o geisiadau a wnaethpwyd mewn carchardai oedolion yn ymwneud ag eiddo (H1, H2 a H3) ac iechyd (G). Mewn sefydliadau troseddwyr ifanc, roedd y nifer mwyaf yn ymwneud â gweithgaredd â phwrpas iddo (D) ac o ran cadw mewnfudwyr, roedd y nifer mwyaf yn ymwneud â rheoli achosion (I).

**Allwedd**

| **Cod** | **Pwnc (Canolfannau Symud Mewnfudwyr)** | **Pwnc (Carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc)** |
|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, cawodydd | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, golchiadau |
| B | Defnyddio grym, atal rhag cymdeithasu | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cynllun cymhellion, sancsiynau |
| C | Cydraddoldeb | Cydraddoldeb |
| D | Gweithgaredd â phwrpas iddo, gan gynnwys addysg, gwaith â thâl, hyfforddiant, llyfrgell, gweithgaredd arall | Gweithgaredd â phwrpas iddo, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser allan o'r gell |
| E1 | Llythyrau, ffacsys, ymweliadau, ffonau, mynediad i'r rhyngrwyd | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, gwarchod y cyhoedd, cyfyngiadau |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys cyfrifon canolfan pobl a oedd yn cael eu cadw dan glo | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant |
| F | Bwyd a cheginau | Bwyd a cheginau |
| G | Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, meddyliol, a gofal cymdeithasol | Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, meddyliol, a gofal cymdeithasol |
| H1 | Eiddo yn y ganolfan | Eiddo yn y sefydliad |
| H2 | Eiddo wrth drosglwyddo neu mewn sefydliad neu leoliad arall | Eiddo wrth drosglwyddo neu mewn cyfleuster arall |
| H3 | Amherthnasol | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogau |
| I | Materion yn ymwneud ag achos mewnfudo pobl sy'n cael eu cadw dan glo, gan gynnwys mynediad at gyngor cyfreithiol | Rheoli dedfryd, gan gynnwys HDC, ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau, ailgategoreiddio |
| J | Ymddygiad staff/pobl sy'n cael eu cadw dan glo, gan gynnwys bwlio | Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio |
| K | Hebryngwyr | Trosglwyddiadau |
| L | Arall | Amrywiol |

## Atodiad 2: Aelodaeth

Roedd **1,176** o aelodau mewn swyddi ar draws **132** o fyrddau ar 1 Ionawr 2024. Yn ystod 2023, sefydlwyd un IMB newydd yng Ngharchar Ei Fawrhydi Fosse Way.

**Tabl 1: Aelodau mewn swyddi yn ôl rhanbarth**

| Rhanbarthau | Aelodau mewn swyddi |
|---|---|
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 107 |
| Dwyrain Lloegr | 111 |
| Caint, Surrey a Sussex | 81 |
| Llundain | 153 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 60 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 129 |
| Canol De Lloegr | 86 |
| De-orllewin Lloegr | 105 |
| Cymru | 41 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 99 |
| Swydd Efrog a Humber | 91 |
| Ystad cadw mewnfudwyr | 113 |
| ***Cyfanswm*** | ***1,176*** |

**Tabl 2: Aelodau mewn swyddi yn ôl lleoliad cadw[28]**

| Lleoliad | Aelodau mewn swyddi |
|---|---|
| **Carchardai** | **1,054** |
| Carchardai dynion | 936 |
| Carchardai menywod | 118 |
| **Sefydliadau troseddwyr ifanc** | **40** |
| **Ystad cadw mewnfudwyr** | **118** |
| IRC | 40 |
| STHF | 73 |
| Hediadau siarter | 5 |

**Tabl 3: Data ethnigrwydd yr aelodau**

Mae gwella amrywiaeth ethnig yr aelodau wedi'i nodi fel un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer ymrwymiad yr IMB i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r data isod yn ymwneud â 67% o'r holl aelodau sydd mewn swydd. Roedd 33% o'r aelodau mewn swydd heb ymateb neu'n dweud y byddai'n well ganddynt beidio â dweud.

| **Ethnigrwydd** | **Canran (%)** |
|---|---|
| Asiaidd | 4% |
| Du | 2% |
| Cymysg | 1% |
| Grŵp ethnig arall | 2% |
| Gwyn | 92% |
| ***Cyfanswm*** | ***100%*** |

## Ôl-nodion

[1] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Prison population statistics, Population bulletin: weekly 5 January 2024, a gyhoeddwyd 5 Ionawr 2024. Roedd y boblogaeth carchardai yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 1 Ionawr 2024 yn 87,448. Roedd y boblogaeth 12 mis cyn hynny yn 82,212. Mae hyn yn gynnydd o 5,236.

[2] Y Swyddfa Gartref, How many people are detained or returned? statistics, a gyhoeddwyd ar 29 Chwefror 2024. Roedd nifer y bobl a anfonwyd i'w cadw dan glo yn 2023 yn 15,864. Canfuwyd 36,704 o achosion o bobl yn cyrraedd yn afreolaidd yn 2023. Dan Ddeddf Mewnfudo Anghyfreithlon 2023, gallai unrhyw un a oedd yn cyrraedd yn afreolaidd gael ei gadw dan glo. Mae hyn yn golygu y gallai nifer yr unigolion a oedd yn cyrraedd ac yn cael eu cadw dan glo dan y ddeddf (cyrraedd yn afreolaidd) fod dros ddwywaith yn fwy na'r nifer a oedd yn cael eu cadw dan glo y llynedd.

[3] The Brook House Inquiry Report, a gyhoeddwyd ar 19 Medi 2023. Cyhoeddasom ymateb cychwynnol i'r adroddiad (19 Medi 2023) ac ymateb ffurfiol (19 Mawrth 2024).

[4] Gweler argymhelliad 26 y dylai Byrddau Monitro Annibynnol gyhoeddi data amrywiaeth wedi'u coladu yn yr Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol, Byrddau Monitro Annibynnol a'r Gynghrair Cyfiawnder Troseddol, Towards Race Equality, Executive Summary, a gyhoeddwyd 8 Ebrill 2022.

[5] Byrddau Monitro Annibynnol, National Monitoring Framework, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2021.

[6] Mae rhai o'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth rheoli leol ac mae'n bosibl na fyddant yn gyson ag ystadegau swyddogol a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'r Swyddfa Gartref.

[7] Ffigur cenedlaethol wedi'i amcangyfrif ar sail data ymweliadau a adroddwyd gan y Byrddau Monitro Annibynnol.

[8] Roedd yr adroddiad thematig hwn mewn llythyr gan Gadeirydd Cenedlaethol yr IMB at y Gweinidog Carchardai. Gweler Urgent action needed to improve poor conditions endemic in young offender institutions, a gyhoeddwyd ar 1 Awst 2023.

[9] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Annex to PSI 64/2011, a roddwyd ar waith ar 5 Gorffennaf 2021.

[10] Byrddau Monitro Annibynnol, Segregation of men with mental health needs. A thematic monitoring report, a gyhoeddwyd ar 25 Ionawr 2024.

[11] NHS England, The transfer and remission of adult prisoners under the Mental Health Act 1983. Good practice guidance 2021, a gyhoeddwyd ar 10 Mehefin 2021.

[12] Gweler tablau cryno cadw mewnfudwyr, y Swyddfa Gartref, How many people are detained or returned? statistics, a gyhoeddwyd ar 29 Chwefror 2024.

[13] Mae'r Ymgyrch Diogelu *(Operation Safeguard)* yn caniatáu cadw carcharorion yng nghelloedd yr heddlu er mwyn creu gofod dros dro. Fel rhan o'r cynllun, mae carcharorion sy'n wladolion tramor hefyd yn cael eu cadw mewn lleoliadau cadw mewnfudwyr.

[14] Gweler Ffigur 3, y Swyddfa Gartref, How many people are detained or returned? statistics, a gyhoeddwyd ar 29 Chwefror 2024.

[15] Rheolau Cyfleusterau Dal Tymor Byr 2018, Rhan II, Rheol 6(1) a (2).

[16] Nid yw Rheolau STHF 2018 yn gymwys i unigolion sy'n cael eu dal mewn mannau aros a reolir. Mewn mannau aros a reolir, mae pobl yn cael eu dal i ddechrau dan ffurflen IS81 sy'n rhoi awdurdod i swyddogion mewnfudo gadw unigolion tra mae ymholiadau pellach yn cael eu gwneud.

[17] Gweler tudalen 5, y Swyddfa Gartref, Adults at Risk in Immigration Detention, Fersiwn 9, a gyhoeddwyd ar 20 Ebrill 2023.

[18] Y Swyddfa Gartref, Management of adults at risk in immigration detention, a ddiweddarwyd ar 13 Rhagfyr 2022.

[19] Y Swyddfa Gartref, Detention services order 09/2016, Detention centre rule 35 and Short-term Holding Facility rule 32, Fersiwn 7, a gyhoeddwyd ar 5 Mawrth 2019.

[20] Mae digwyddiadau difrifol yn cael eu categoreiddio fel unrhyw ddigwyddiad a allai effeithio ar ddiogelwch staff a phobl sy'n cael eu cadw dan glo, ac a allai effeithio ar enw da'r Swyddfa Gartref. Gweler y diffiniad yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref, Reporting and communicating incidents in the immigration detention estate, a ddiweddarwyd ar 15 Mawrth 2022.

[21] Rheolau Canolfannau Cadw (2001), Rhan III, Rheol 40.

[22] Rheolau Canolfannau Cadw (2001), Rhan III, Rheol 42.

[23] Rheolau Canolfannau Cadw (2001), Rhan III, Rheol 40 (4).

[24] Adran Fisâu a Mewnfudo y DU, Facilitated Return Scheme: caseworker guidance, a gyhoeddwyd ar 19 Mehefin 2023.

[25] Codwyd y data hyn o adroddiadau blynyddol a gyhoeddwyd yn 2023.

[26] Cyflwynwyd y llinell rhadffôn 0800 i alluogi carcharorion i gysylltu â Byrddau Monitro Annibynnol yn 2020 er mwyn cynorthwyo'r Byrddau i fonitro o bell yn ystod pandemig Covid-19.

[27] Mae'r graff hwn yn cynnwys ceisiadau wyneb yn wyneb, ceisiadau ysgrifenedig a cheisiadau 0800. Mae'n bosibl bod rhai ceisiadau wedi cael eu dyrannu i fwy nag un math o gategori. Er enghraifft, efallai y bydd un cais yn ymwneud ag eiddo a llety ac y bydd wedi'i ddangos ddwywaith yn y graffiau hyn.

[28] Mae rhai Byrddau yn monitro dau sefydliad mewn lleoliadau gwahanol ac mae rhai aelodau mewn swydd ar ddau Fwrdd a byddant wedi'u cyfrif ddwywaith yn y tabl hwn.